



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government


Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER YSGOLION PRESWYLY BRIF FFRWD

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i

- i) ysgolion arbennig preswyl,
- ii) ysgolion preswyl, a
- iii) colegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed

a wnaed gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y pwerau a roddwyd iddi o dan adran 107 o Ddeddf Safonau Gofal 2000



Y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
9 Chwefror 2003

Mae'r datganiad yn berthnasol i ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl a cholegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed o 1 Chwefror 2003.

Amgaeir hefyd gyflwyniad i'r tair set o safonau er mwyn egluro'r broses.

Y Safonau Gofynnol
Cenedlaethol
ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd



Contents

	Tudalen
Cynnwys	
1 Polisïau a gweithdrefnau lles (Safonau 1–7)	02
Datganiad o egwyddorion ac arferion preswyl	02
Mynd i'r afael â bwlio	03
Amddiffyn plant, ymateb i honiadau	04
Disgyblu, cosbi, gwobrwyo ac atal	06
Ymateb i gŵynion	10
Addysg iechyd	11
Cofnodion iechyd disgyblion preswyl	12
2 Trefnu a Rheoli (Safonau 8–14)	13
Rheoli a datblygu preswyl	13
Rheoli argyfyngau	14
Trefniadaeth y tai preswyl	15
Gweithgareddau ac amser rhydd	16
Gwrando ar sylwadau disgyblion preswyl	17
Swyddogion	18
Cymorth staff a chymorth allanol i ddisgyblion preswyl	19
3 Cymorth Lles i Ddisgyblion preswyl (Safonau 15–30)	20
Triniaeth feddygol a chymorth cyntaf	20
Gofal am ddisgyblion preswyl sâl	22
Rheoli problemau iechyd a phroblemau personol	23
Gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal	24
Cysylltiad â rhiant a ffonau	25
Arian poced a gofal am eiddo	26
Sefydlu disgyblion preswyl newydd	27
Gwarcheidwaid addysgol	28
Monitro cofnodion	29
Arlwyo	30
Dŵr yfed a byrbrydau	31
Rhagofalon a driliau tân	32
Galwadau beichus ar ddisgyblion preswyl	33
Lletya plant heblaw disgyblion	34
Gweithgareddau risg uchel ac asesu risg	35
Cael gafael ar wybodaeth a defnyddio cyfleusterau lleol	36
4 Staffio (Safonau 31–39)	37
Goruchwylio disgyblion preswyl	37
Goruchwylio disgyblion preswyl sy'n ymadael â safle'r ysgol	38
Goruchwyliaeth nos ar y tai preswyl	38
Disgrifiad swydd, sefydlu, goruchwylio a hyfforddi staff	39

Staff job descriptions, induction, supervision, training	40
Canllawiau i staff ar arferion preswyl	41
Perthynas staff / disgyblion preswyl	42
Preifatrwydd	43
Recriwtio staff a gwiriadau ar oedolion eraill	45
Cyfle i oedolion weld y disgyblion preswyl ar llety	47
5 Y safle (Safonau 41–52)	48
Llety preswyl	48
Mynediad i'r llety a'i ddiogelwch	49
Ystafelloedd cysgu	50
Darpariaeth astudio	52
Darpariaeth toiledau ac ymolchi	53
Cyfleusterau newid	55
Mannau adloniant	56
Peryglon i ddiogelwch ac asesu risg	57
Llety ar gyfer disgyblion sâl	58
Golchi dillad	59
Deunyddiau ysgrifennu ac eitemau personol	60
Tŷ llety	61
Llety oddi ar y safle a chyfnewidiadau	63
Atodiadau	
1 Rhestr o Bolisiau a Dogfennau	65
2 Rhestr o Gofnodion	66
3 Rhestr o Bynciau i'w monitro gan yr Ysgol	67
4 Geirfa	68

Rhagarweiniad

Mae pob un o'r safonau yn nodi canlyniadau cyffredinol mewn perthynas â lles disgyblion preswyl, gyda datganiad o'r safon ofynnol genedlaethol a ategwyd gan safonau penodol ar gyfer eu defnyddio wrth asesu ysgolion yn ystod arolygiad.

Wrth arolygu i'r safonau hyn, bydd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, ac unrhyw arolygiaeth arall a gymeradwyir, yn dilyn methodoleg arolygu a fformat adroddiadau cyson ledled y wlad.

Bydd asesiadau yn erbyn y safonau yn edrych pa mor bell mae'r ysgol yn bodloni ei gofynion cyfreithiol i ddiogelu a hybu lles y disgyblion preswyl. Dyma'r peth hanfodol, yn hytrach na gwirio cydymffurfedd â manylion pob un o'r safonau.

Mae'r safonau yn safonau gofynnol yn yr ystyr eu bod yn ofynion y dylai'r holl ysgolion eu bodloni wrth ddiogelu a hybu lles disgyblion preswyl. Bydd llawer o ysgolion yn bodloni'r safonau yma neu yn fwy na'u bodloni.

Bydd yr ysgol yn cael ei arolygu yn erbyn y safonau er mwyn penderfynu a yw yn cydymffurfio a'i oblygiadau cyfreithiol i ddiogelu a hybu lles disgyblion preswyl. Wrth arfer ei bwerau, rôl yr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw i ystyried i ba raddau mae ysgol yn hybu a diogelu lles ei ddisgyblion preswyl, yn hytrach na chanolbwyntio ar strwythurau a systemau er eu mwyn eu hunain. Fe fydd polisi mynediad a Datganiad Diben yr ysgol yn cael eu hystyried yn ogystal â barn y rhai hynny sydd wedi dewis yr ysgol ar gyfer eu plentyn.

Gwybodaeth bellach

Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r safonau gofynnol cenedlaethol yma, ond cyfrifoldeb Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw eu cymhwyso at sefydliadau unigol. Gellir mynd at Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn y lee cyntaf ynghylch cymhwysedd y safonau mewn amgylchiadau penodol. Gellir cyfeirio ymholiadau eraill, er enghraifft ynglŷn â'r polisiau tu ôl i'r safonau at Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

www.childrenfirst.wales.gov.uk

1. Polisiau a Gweithdrefnau Lles

Datganiad o egwyddorion ac arferion preswyl

CANLYNIAD

Dylai datganiad addas o egwyddorion ac arferion preswyl i'r ysgol fod ar gael i rieni, disgyblion preswyl a staff.

SAFON 1

- 1.1 Dylai datganiad addas o egwyddorion ac arferion preswyl i'r ysgol fod ar gael i rieni, disgyblion preswyl a staff.**
- 1.2** Mae'r datganiad (y gellir ei gynnwys yn y Llawlyfr neu mewn dogfen debyg) yn ymwneud ag amcanion a threfniadaeth preswyl yn yr ysgol, y meini prawf ar gyfer derbyn, amlinelliad o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth lles i ddisgyblion preswyl, unrhyw agweddau crefyddol neu ddiwylliannol arbennig yn yr ysgol, ac mae'n ymdrin â pholisiau ac arferion perthnasol yr ysgol fel y bo'n briodol.
- 1.3** Mae'r datganiad yn gyfredol a threfnir ei fod ar gael i rieni, rhieni arfaethedig, staff a disgyblion preswyl.
- 1.4** Mae'r datganiad yn adlewyrchu'n rhesymol yr arferion preswyl cyfredol yn yr ysgol mewn gwirionedd.

Mynd i'r afael â Bwlio

SAFON 2

CANLYNIAD

Caiff y disgyblion preswyl eu hamddiffyn rhag bwlio.

- 2.1 Dylai'r ysgol gael polisi effeithiol i fynd i'r afael â bwlio, sy'n wybyddus i rieni, disgyblion preswyl a staff ac sy'n cael ei weithredu'n llwyddiannus yn ymarferol.**
- 2.2** Mae'r polisi'n ymwneud â mesurau i atal bwlio ac i ymateb i fwlio y sylwir arno neu yr adroddir amdano, ac mae hefyd yn cynnwys diffiniad o fwlio sydd yn cynnwys galw enwau, bod â bys mewn llygad, gwneud sylwadau anffafriol a gweithrediadau anffafriol sydd yn cael ei adolygu yn reoliadd gyda staff a phlant, a sydd yn cynnwys bwlio gan staff, gan blant a gan ymwelwyr a bwlio a all ddigwydd mwen man arall heblaw'r ysgol.
- 2.3** Mae'r polisi'n cael ei ddarparu i rieni preswylwyr, ac mae ar gael ac mae staff a disgyblion preswyl yn gwybod amdano, gan gynnwys staff iau a staff a benodwyd yn ddiweddar.
- 2.4** Mae'r ysgol yn cymryd camau i annog plant i beidio â gweithredu, a gwahardd, unrhyw ffurf ar ddefod derbyn ar gyfer disgyblion newydd sydd â'r bwriad o beri poen, pryder neu waradwydd.
- 2.5** Nid yw'r disgyblion yn enwi bwlio fel problem yn yr ysgol.
- 2.6** Mae'r disgyblion sy'n cael eu bwlio yn cael cymorth addas, ac mae disgyblion a allai fwlio eraill hefyd yn cael cymorth a chyfarwyddyd addas.

Amddiffyn plant, ymateb i honiadau

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

SAFON 3

- 3.1 Dylai'r ysgol gael polisi priodol, a dylai ddilyn y polisi, ar amddiffyn plant ac ar ymateb i honiadau neu amheuron o gamdriniaeth. Dylai'r polisi fod yn gyson â gweithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth yn lleol, a dylai'r staff, a disgyblion preswyl hŷn mewn safle cyfrifol fel y bo'n briodol, wybod amdano.**
- 3.2** Mae yna bolisi ysgrifenedig ar amddiffyn plant sy'n gyson â gofynion gweithdrefnau Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac unrhyw weithdrefnau sydd gan Bwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth yn lleol. Mae'r polisi yn cynnwys gofyniad bod cyfeirio'n cael ei wneud o fewn 24 awr (yn ysgrifenedig neu gyda chadarnhad ysgrifenedig o gyfeirio ffôn) ynghylch honiadau neu amheuron o gamdriniaeth i'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol er mwyn iddynt gynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, yn hytrach na bod yr ysgol yn cynnal ymchwiliad mewnol. Mae'r polisi hwn ar gael i staff ac i oedolion sy'n gweithio yn yr ysgol.
- 3.3** Mae'r polisi amddiffyn plant yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer yr holl staff (gan gynnwys staff atodol) a gyflogir gan yr ysgol y cyflwynir honiadau o gamdriniaeth iddynt neu sy'n amau y gallai cam-drin fod yn digwydd yn yr ysgol neu yn rhywle arall i ystyried mesurau y gall eu bod yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn disgyblion preswyl unigol; i osgoi gofyn cwestiynau arweiniol neu roi gwarantau amhriodol o gyfrinachedd; i wneud a chadw cofnodion ysgrifenedig; ac i roi adroddiad ar y mater i'r person dynodedig yn yr ysgol i gymryd camau pellach¹. Dylai'r polisi fod yn eglur ynghylch cymryd camau pe bai'r sawl sydd wedi'u dynodi gan yr ysgol i dderbyn adroddiadau o'r fath yn dod yn destun honiadau neu amheuaeth eu hunain.
- 3.4** Mae polisi ac arferion yr ysgol yn gwbl eglur yn ei gwneud yn ofynnol i staff gyflwyno adroddiad i aelod uwch dynodedig o staff yr ysgol, neu i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru neu arolygiaeth benodedig arall y mae cytundeb rhyngddi hi a'r ysgol (o dan adran 87A o Ddeddf Plant 1989), ynghylch unrhyw bryder neu honiad am arferion yr ysgol neu ymddygiad cydweithwyr sy'n debygol o roi disgyblion o dan risg camdriniaeth neu niwed difrifol arall; ac mae'n darparu imiwnedd rhag dial neu rhag camau disgyblu yn erbyn y cyfryw staff am "chwythu'r chwiban" yn ddiwyll.

¹ Dylai'r polisi fod yn glir ar y camau i'w cymryd pe digwyddai i'r person dynodedig sydd yn derbyn yr adroddiadau ei hunan fod yn destun honiad neu amheuaeth.

- 3.5** Mae'r holl staff, ar bob lefel, (gan gynnwys staff a benodwyd yn ddiweddar a staff atodol) wedi cael briff neu hyfforddiant ar sut i ymateb i amheuron neu honiadau o gamdriniaeth ac yn gwybod pa gamau y dylent eu cymryd wrth ymateb i amheuron neu honiadau o'r fath.
- 3.6** Dynodir aelod uwch o'r staff i fod yn gyfrifol am y polisi amddiffyn plant, i gysylltu â'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol, ac i gydgyssylltu camau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu (pan fydd hynny'n gymwys) yn dilyn unrhyw honiad neu amheuaeth ynghylch amddiffyn plant sy'n effeithio ar ddisgybl preswyl. Mae'r aelod hwn o'r staff wedi'i hyfforddi mewn amddiffyn plant, ac mae ganddo gopi o Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac unrhyw weithdrefnau lleol ar Amddiffyn Plant y Rhanbarth.
- 3.7** Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i unrhyw faterion diweddar ynghylch amddiffyn plant ac wedi cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant statudol sydd wedi digwydd yn ymwneud â'r ysgol ers yr archwiliad blaenorol, ac wedi cyfrannu'n briodol wrth ffurfio a gweithredu unrhyw gynllun amddiffyn plant.
- 3.8** Pan fo'n briodol, caiff disgyblion hŷn y rhoddwyd swyddi o gyfrifoldeb iddynt dros ddisgyblion eraill eu briffio ar y camau priodol y dylent eu cymryd pe baent yn derbyn unrhyw honiadau o gamdriniaeth
- 3.9** Mae yna bolisi, sy'n hysbys i'r staff ac sy'n cael ei ddefnyddio, ar chwilio am unrhyw ddisgybl preswyl sydd ar goll o'r ysgol, ac ar roi gwybod amdanynt os bydd angen gwneud hynny. Mae cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o unrhyw ddigwyddiad pan fu disgybl preswyl ar goll o'r ysgol, y camau a gymerwyd, a unrhyw reswm a roddwyd gan y disgybl am fynd ar goll.

Ymddygiad, disgyblu, cosbi, gwobrwo ac atal

CANLYNIAD

Mae disgyblion preswyl yn cael eu disgyblu yn deg ac yn briodol.

SAFON 4

- 4.1 Mae'r staff yn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad derbynol, ac os yw'r staff yn barnu bod ymddygiad y plant yn annerbynol, ymatebir i hynny drwy fesurau disgyblu adeiladolydd wedi'u cymeradwyo gan y Pennaeth Gofal.**
- 4.2** Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau ysgrifenedig clir a phriodol i'r staff ar y mesurau rheoli, disgyblu ac atal y gellir eu defnyddio yn yr ysgol ac sy'n pwysleisio'r angen hefyd i ganmol y plant am ymddygiad derbynol.
- 4.3** Mae unrhyw bolisi neu arferion disgyblu mewn tŷ neu uned fyrddio unigol yn gyson â pholisi cyffredinol yr ysgol, ac wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr ysgol.
- 4.4** Mae'r mesurau rheoli a'r sancsiynau wedi'u seilio ar sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac wedi'u cynllunio i helpu'r plentyn. Mae'r mesurau hyn yn cael eu defnyddio'n deg ac yn gyson; maent hefyd yn rhoi hwb ar gyfer gwneud iawn ac yn lleihau'r tebygrwydd y bydd ymddygiad negyddol yn ennyn sylw.
- 4.5** Mae unrhyw fesurau a gymerir i ymateb i ymddygiad annerbynol yn briodol ar gyfer oedran, dealltwriaeth ac anghenion unigol y plentyn, gan gymryd i ystyriaeth er enghraifft y gall ymddygiad annerbynol neu herfeiddiol ddeillio o salwch, bwlio, anableddau penodol megis awtistiaeth, neu anawsterau cyfathrebu. Mae mesurau penodol ar gyfer rheoli neu ymyrryd yn gorfforol yn cael eu dethol, eu hosgoi neu eu haddasu yn ôl yr angen i gymryd anghenion, nodweddion ac unrhyw anabledd/AAA sydd gan y plentyn i ystyriaeth.
- 4.6** Nid yw'r staff na neb arall yn yr ysgol yn defnyddio cosbau afresymol, mympwyol neu ormodol, gan gynnwys unrhyw gosb sydd wedi'i bwriadu i achosi poen, pryder neu waradwydd, ac nid ydynt yn defnyddio unrhyw un o'r canlynol fel cosb:
- cosb gorfforol,
 - unrhyw ddull o daro plentyn (gan gynnwys taro plentyn mewn dicter neu i dalu'r pwyth yn ôl),
 - gwrthod y cyfle i gael bwyd neu ddiod,
 - gorfodi'r plant i fwyta neu yfed,

- atal y plant rhag cysylltu dros y ffôn neu drwy lythyru â'r rhieni neu unrhyw wrandawr neu linell gymorth annibynnol briodol,
- mynnu bod person yn gwisgo dillad neilltuol fel cosb neu ddillad nos yn y dydd,
- defnyddio triniaeth feddygol neu ddeintyddol neu eu dal yn ôl,
- cadw ar ddi-hun yn fwriadol
- defnyddio dirwyon heblaw ar gyfer gwneud iawn a dirwyon o fwy na dau draean o'r arian poced sydd ar gael i'r plentyn ar y pryd,
- cloi'r plentyn mewn ystafell neu ran o adeilad,
- archwiliad corfforol agos o'r plentyn,
- dal yn ôl unrhyw gymhorthion neu offer y mae eu hangen ar blentyn anabl.

4.7 Nid yw sancsiynau yn erbyn grŵp yn cael eu defnyddio am dramgwyddau plant unigol nac fel dull o roi pwysau grŵp ar blentyn.

4.8 Ni roddir awdurdod i'r plant, gan gynnwys swyddogion a'r rhai sydd mewn safleoedd o awdurdod, i ddefnyddio unrhyw sancsiynau neu ymyriad corfforol yn erbyn plant eraill.

4.9 Mae cofnod o sancsiynnau ffurfiol a ddefnyddir yn cael ei gadw mewn llyfr sydd wedi'i rwymo a'i rifo sy'n cynnwys rhestr o'r sancsiynau a ganiateir. Mae'r cofnod yn cael ei wneud o fewn 24 awr a'i gofnodi'n ddarllenadwy. Mae pob cofnod yn cynnwys:

4.9.1 enw'r plentyn;

4.9.2 y dyddiad a'r lleoliad;

4.9.3 manylion yr ymddygiad amhriodol;

4.9.4 natur y sancsiwn;

4.9.5 enw'r aelod staff sy'n rhoi'r sancsiwn;

4.9.6 enw(au) unrhyw staff eraill sy'n bresennol;

4.9.7 effeithiolrwydd y sancsiwn ac unrhyw ganlyniadau;

4.9.8 llofnod yr aelod staff o dan sylw.

4.10 Pan ddefnyddir sancsiynau, mae'r plant yn cael eu hannog i ysgrifennu eu barn neu i'w chofnodi mewn ffordd arall, a llofnodi gyferbyn â hi, os oes modd, yn y cofnodion y mae'r ysgol yn eu cadw.

4.11 Dim ond i atal anaf tebygol i'r plentyn o dan sylw neu i eraill, neu ddifrod difrifol tebygol i eiddo, y defnyddir ymyriadau corfforol. Nid yw ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio fel cosb, fel dull i orfodi plentyn i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, nac mewn ymateb i ymddygiad herfeiddiol heblaw yn y sefyllfaoedd a nodir yn adran 550A o Ddeddf Addysg 1996.

4.12 Mae gan yr ysgol bolisi pendant ar ddefnyddio ymyriadau corfforol ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio, ac mae'r polisi hwnnw'n gyson ag unrhyw ganllawiau perthnasol cyfredol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

ar ddulliau ymyriadau corfforol a gymeradwywyd ac yn briodol i anghenion ac anawsterau'r plentyn yn yr ysgol. Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar ddefnyddio ymyriadau corfforol a'r technegau perthnasol ac yn ei ddilyn mewn gwirionedd.

- 4.13** Mae'r ysgol yn darparu neu'n sicrhau y darperir hyfforddiant i'r staff ar dechnegau diogel a phriodol ar gyfer ymyryd yn gorfforol â phlant, ac o dan ba amgylchiadau y gellir atal plant, gan gynnwys hyfforddiant mewn lleihau neu osgoi'r angen i ddefnyddio ymyriadau corfforol.
- 4.14** Nid yw ymyriadau corfforol yn ormodol nac yn afresymol.
- 4.15** Mae cofnod o'r adegau y mae oedolyn yn ymyryd yn gorfforol â phlentyn yn cael ei gadw mewn llyfr penodol ar wahân, ac yn cynnwys enw'r plentyn, y dyddiad a'r lleoliad y digwyddodd yr ymyriad corfforol, manylion yr ymddygiad a'i gwnaeth yn angenrheidiol defnyddio'r ymyriad corfforol, natur yr ymyriad corfforol a ddefnyddiwyd, am ba hyd y defnyddiwyd yr ymyriad corfforol, enw'r aelod(au) staff a ddefnyddiodd yr ymyriad corfforol, enw(au) unrhyw staff eraill a fu'n bresennol, effeithiolrwydd yr ymyriad corfforol ac unrhyw ganlyniadau, unrhyw anafiadau a achoswyd i'r plentyn neu unrhyw berson arall neu a adroddwyd ganddynt, a llofnod y Pennaeth, y Pennaeth Gofal neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan Brifathro, Brifathrawes, llywodraethwyr neu berchnogion yr ysgol.
- 4.16** Mae cofnodion yr ysgol o sancsiynau ac ymyriadau corfforol yn cael eu hadolygu o leiaf ddwywaith y tymor gan un o uwch-aelodau staff yr ysgol i fonitro eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu, rheoli ac ymyriadau corfforol yr ysgol ac i ddod o hyd i unrhyw batrymau mewn digwyddiadau sy'n arwain at yr angen am sancsiynau neu ymyriadau corfforol.
- 4.17** Mae'r Prifathro neu'r Brifathrawes yn adolygu gofal plant unigol ac arferion gofal presennol yr ysgol yng ngoleuni'r digwyddiadau a gofnodir ac yng ngoleuni patrymau digwyddiadau sy'n gofyn am sancsiynau neu ymyriadau corfforol. Mae'r Pennaeth yn cofnodi unrhyw sylwadau ar briodoldeb enghreifftiau unigol o ddefnyddio sancsiynau neu ymyriadau corfforol, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd wedyn.
- 4.18** Mae cofnodion o sancsiynau neu ymyriadau corfforol ar blentyn hefyd yn cael eu gwneud ar ffeil y plentyn unigol, y caiff y rhiant neu'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn ei gweld.
- 4.19** Mae cynrychiolydd i gorff llywodraethu'r ysgol, y perchennog neu'r person sy'n rhedeg yr ysgol yn darllen cofnodion am y defnydd ar sancsiynau ac ymyriadau corfforol ac yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig arnynt yn ystod unrhyw ymweliad â'r ysgol.
- 4.20** Mae'r holl staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant wedi darllen copi o bolisiau'r ysgol ar fesurau rheoli, disgyblu ac ymyriadau corfforol, yn dangos eu bod yn ei ddeall ac wedi'i lofnodi, a chedwir tystiolaeth o hyn ar

eu ffeiliau personél. Mae'r polisi'n manylu ar sut mae'r staff i gael eu holi ar ôl unrhyw ymyriad corfforol.

- 4.21** Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi yn briodol i bob plentyn ynghylch y disgwyliadau o ran ymddygiad yn yr ysgol, ynghylch unrhyw reolau y disgwylir iddynt eu cadw, a pha sancsiynau ac ymyriadau corfforol a ddefnyddir a sut y maent yn gysylltiedig ag ymddygiad annerbyniol. Trefnir hefyd fod yr wybdoateh hon ar gael i rieni.
- 4.22** Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth briodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff a'r plant fel ei gilydd yn glir fod gan bob unigolyn hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhai sy'n byw yn yr ysgol, y rhai sy'n gweithio yno a phobl yn y gymuned.
- 4.23** Mae'r plant yn cael cyfle i drafod digwyddiadau a mynegi eu barn naill ai yn unigol neu mewn fforwm neu gyfarfod tŷ rheolaidd lle gall plant ac oedolion drafod ymddygiad anniogel.
- 4.24** Mae gan yr ysgol weithdrefnau a chanllawiau ar ymglymu'r heddlu yn yr ysgol, mae'r rhain wedi'u cytuno gyda'r heddlu lleol ac mae'r staff yn wybodus ac yn glir yn eu cylch.
- 4.25** Mae cyfarfodydd staff yn rhoi sylw i faterion rheoli. Mae'r staff yn cytuno ar ddulliau ymarferol a derbyniol o ymateb i broblemau ymddygiad a phroblemau rheoli grwpiau o blant a phlant unigol yng ngoleuni eu hanesion ac unrhyw broblemau cyfredol.
- 4.26** Mae safonau ymddygiad yn yr ysgol ac yn y gymuned yn foddhaol o'u cymharu ag anghenion y plant.
- 4.27** Mae polisi disgyblu'r ysgol yn cynnwys datganiad clir sy'n dweud o dan ba amgylchiadau ac ym mha fodd y gellir gwahardd y plentyn o'r ysgol. Dim ond ar gyfer tramgwyddau difrifol y gwaherddir plant o'r ysgol ac mae'r cosbau hyn yn cael eu cymhwyso'n deg. Nid yw gwaharddiadau yn trosglwyddo plentyn i amgylchiadau y mae gan yr ysgol reswm dros gredu y gallent beryglu lles y plentyn. Mae'r polisi disgyblaeth yn cynnwys manylion y weithdrefn apelio ac yn mynegi honno i'r plentyn a'r rheini (os yw'n briodol), unrhyw ladmerydd annibynnol sy'n cynrychioli'r plentyn.

Ymateb i gŵynion

CANLYNIAD

Ymatebir yn ddigonol i gŵynion y disgyblion preswyl.

SAFON 5

- 5.1 Dylai'r ysgol gael polisi priodol, a dylai ddilyn y polisi, ar ymateb i gŵynion gan ddisgyblion preswyl a chan rieni, a dylai'r disgyblion preswyl, y staff a'r rhieni wybod amdano.**
- 5.2** Mae gweithdrefn gŵynion ar gael i'r staff, y disgyblion preswyl a'r rhieni i gyd.
- 5.3** Mae dogfennau i rieni yn esbonio sut y gall rhieni leisio cŵynion neu bryderon ynghylch gofal eu plant yn yr ysgol.
- 5.4** Mae'r ysgol yn rhoi gwybod i'r disgyblion preswyl a'u rhieni sut y gallant gysylltu ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (neu arolygiaeth benodedig arall os yw'n gymwys), ynghylch unrhyw gŵyn ynghylch eu lles.
- 5.5** Cedwir cofnod ysgrifenedig o gŵynion difrifol a'u canlyniadau, ar gyfer ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pennaeth neu gan aelod uwch o'r staff.
- 5.6** Mae cŵynion yn cael eu datrys naill ai er boddhad yr achwynydd, neu fel arall gyda chanlyniad priodol sy'n creu cydbwysedd rhwng hawliau a dyletswyddau disgyblion, heb oedi afresymol.
- 5.7** Nid yw'r disgyblion yn cael eu cosbi am wneud cŵyn yn ddidwyll.
- 5.8** Darperir gwybodaeth i blant, a lle bo'n briodol, eu teuluoedd, eraill arwyddocaol ac ymwelwyr annibynnol, ar sut i gwyno, yn cynnwys sut y maemodd iddynt sicrhau hawl i fynd at adfocad annibynnol a phryd y bydd y person hynny yn ymweld nesaf â'r sefydliad, pan mae hynny'n wybyddus.

Addysg iechyd

CANLYNIAD

Mae iechyd disgyblion preswyl yn cael ei hybu.

SAFON 6

- 6.1 Dylai'r ysgol gael polisi priodol, a dylai ddilyn y polisi, ar fynd i'r afael â risgiau mawr i iechyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau.**
- 6.2** Mae addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd yn darparu cyngor a chanllawiau sy'n addas i oedran y plant ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau anghyfreithiol, ysmegu, addysg rhyw, haint HIV, hepatitis a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol ac amddiffyn yr hunan yn erbyn camdriniaeth.
- 6.3** Mae'r staff yn gwybod beth yw polisi'r ysgol ar yr ymateb priodol i alcohol, ysmegu a chamddefnyddio sylweddau anghyfreithiol gan ddisgyblion preswyl, ac maent yn dilyn y polisi hwnnw yn ymarferol.

Cofnodion iechyd disgyblion preswyl

CANLYNIAD

Mae diogelu a hybu iechyd a lles disgyblion preswyl yn cael ei gynorthwyo gan gofnodion priodol.

SAFON 7

- 7.1 Dylid cadw cofnodion digonol mewn perthynas ag anghenion a materion iechyd a lles y disgyblion preswyl unigol.**
- 7.2** Mae cofnodion unigol ar gyfer y disgyblion preswyl, ac maent yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles a ddarperir gan rieni ac yn cofnodi anghenion a materion sylweddol ynghylch iechyd a lles. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ymatebion sylweddol gwybyddus i gyffuriau, y prif alergeddau ac unrhyw gyflyrau meddygol nodedig, ac mae'r wybodaeth hon ar gael i staff sy'n debygol o roi meddyginiaeth neu driniaeth i'r disgyblion preswyl hynny.
- 7.3** Mae cofnodion y disgyblion preswyl yn cynnwys enwau personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl preswyl, manylion i gysylltu â rieni ac unrhyw drefniadau cysylltiad brys eraill, ac unrhyw orchmynion llys sy'n effeithio ar gyfrifoldeb rhiant neu ar ofal y disgybl preswyl.
- 7.4** Trefnir bod gwybodaeth am anghenion lles ac unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer disgyblion preswyl unigol ar gael yn effeithiol i'r staff hynny y mae angen iddynt wybod.
- 7.5** Diogelir cyfrinachedd gwybodaeth bersonol ynghylch disgyblion preswyl.

2. Trefnu a Rheoli

CANLYNIAD

Mae arweiniad clir ar breswyllo yn yr ysgol.

SAFON 8

- 8.1 Dylai fod rheolaeth ac arweiniad clir mewn perthynas â lles a threfniadau byw ar gyfer preswylwyr.**
- 8.2** Mae gan gorff llywodraethu neu berchennog yr ysgol system i fonitro'r ddarpariaeth les yn yr ysgol.
- 8.3** Mae gan y staff preswyllo hŷn lefel ddigonol o brofiad neu hyfforddiant mewn rheolaeth ac arferion preswyllo er mwyn sicrhau bod lles y disgyblion preswyl yn cael ei ddiogelu a'i hybu.
- 8.4** Mae yna weithdrefn disgyblu staff, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer atal staff o'i swyddi yn rhagofalus pan fydd angen wrth ddisgwyl am ymchwiliad neu benderfyniad terfynol yn dilyn honiadau neu bryderon a allai gael effaith sylweddol ar les preswyllo. Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhoi canllawiau a chymorth i staff yn ystod cyfnod o atal neu ymchwilio tra bod honiadau yn eu herbyn yn cael eu harchwilio.

Rheoli argyfyngau

CANLYNIAD

Mae digwyddiadau mawr sy'n effeithio ar les disgyblion preswyl yn cael eu rheoli'n effeithiol.

SAFON 9

- 9.1 Dylai'r ysgol allu rheoli yn foddhaol argyfyngau sy'n effeithio ar les disgyblion preswyl.**
- 9.2** Mae ymatebion cynlluniedig i ystod o ddigwyddiadau neu argyfyngau mawr, megis salwch yn lledu, tanau, honiadau neu gŵynion difrifol neu ddamweiniau sylweddol.
- 9.3** Wrth wneud penderfyniadau mewn unrhyw argyfwng neu frys sy'n effeithio ar les disgyblion preswyl, mae'r staff yn gwneud yr hyn sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau yn yr achos i ddiogelu a hybu lles y disgybl preswyl neu'r disgyblion preswyl o dan sylw.

Trefniadaeth y tai preswyl

CANLYNIAD

Mae trefniadaeth breswylïo'r ysgol yn cyfrannu at les y disgyblion preswyl.

SAFON 10

- 10.1 Dylai trefniadaeth tai neu unedau preswylïo weithredu'n foddhaol a darparu amddiffyniad priodol a gwahanu priodol disgyblion preswyl yn ôl oedran a gender.**
- 10.2** Nid oes gan unrhyw dŷ neu dai unigol ddarpariaeth ffisegol, cyfleusterau neu safonau lles sydd gryn dipyn brinnach n thai eraill.
- 10.3** Nid oes unrhyw anghysondeb mawr mewn ansawdd yn y ddarpariaeth breswylïo i genderau gwahanol.
- 10.4** Nid oes unrhyw anghysondeb mawr neu amhriodol yn egwyddorion neu arferion preswylïo rhwng y gwahanol dai preswyl.
- 10.5** Mae darpariaeth o fannau cysgu, manau adloniant, toiledau ac ystafelloedd ymolchi wedi'u gwahanu'n rhesymol ar gyfer disgyblion preswyl o oeddrannau sy'n sylweddol wahanol.

Gweithgareddau ac amser rhydd

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl gyfle i gymryd rhan mewn ystod a dewis o weithgareddau.

SAFON 11

- 11.1 Dylai bod ystod briodol a dewis o weithgareddau i ddisgyblion preswyl y tu allan i amser dysgu, gydag amser rhydd digonol.**
- 11.2** Mae gan ddisgyblion preswyl amser rhydd digonol bob dydd a hwnnw wedi'i amseru'n addas.
- 11.3** Mae'r ysgol yn darparu ystod a dewis boddhaol o weithgareddau i ddisgyblion preswyl y tu allan i amser dosbarth, drwy gydol y flwyddyn y tu mewn ar tu allan fel y bo'n briodol, yn cynnwys penwythnosau.
- 11.4** Mae cyfle priodol gan ddisgyblion preswyl i gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol, cyfleusterau adloniant a hobiau y tu allan i amser dosbarth.
- 11.5** Mae digon o weithgareddau priodol sy'n cael eu goruchwyllo ar gyfer unrhyw ddisgyblion preswyl sy'n aros yn yr ysgol pan fydd y rhan fwyaf o'r disgyblion preswyl wedi dychwelyd adref (e.e. ar benwythnosau "exeat", hanner tymor neu wyliau).
- 11.6** Os yw disgyblion preswyl yn cael cyfle i ddefnyddio'r rhyngwyd, mae goruchwyliaeth neu ddiogelwch priodol ar gael i fynd i'r afael â risgiau mynediad at ddeunydd amhriodol.

Gwrandu ar sylwadau disgyblion preswyl

CANLYNIAD

Galluogir y disgyblion preswyl i gyfrannu at weithredu'r ddarpariaeth breswyl.

SAFON 12

12.1 Mae cyfle i ddisgyblion preswyl gyfrannu eu sylwadau wrth weithredu'r ddarpariaeth breswyl.

12.2 Mae cyfleoedd ffurfiol (e.e. cynghorau ysgol, cyfarfodydd, archwiliadau) i ddisgyblion preswyl fynegi eu barn ar agweddau perthnasol o'r ddarpariaeth breswyl, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gynrychiolwyr. Cymerir ystyriaeth o'r sylwadau hyn yn natblygiad ac arferion preswyl.

Swyddogion

CANLYNIAD

Mae gweithrediad unrhyw system swyddogion yn diogelu a hybu lles y disgyblion preswyl.

SAFON 13

- 13.1 Dylai unrhyw system swyddogion ysgol (neu system gyfatebol) roi i swyddogion (neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt) ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodedig a phriodol, gyda goruchwyliaeth staff ddigonol a mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw gamdriniaeth bosibl o'r rôl.**
- 13.2** Caiff swyddogion eu dewis ar sail eu haddasrwydd ar gyfer dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl.
- 13.3** Mae dyletswyddau, cyfrifoldebau ac unrhyw bwerau swyddogion neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt wedi'u datgan yn glir yn ysgrifenedig i'r rhai a benodir, ac nid ydynt yn rhoi dyletswyddau neu bwerau cyffredinol sydd heb eu diffinio, nac yn disgwyl i swyddogion ddirprwyo'n amhriodol dros y staff.
- 13.4** Rhwir hyfforddiant sefydlu i swyddogion yn eu rôl pan benodir hwy, sydd yn cynnwys sut i gyfrannu i arferion gwrth-fwlio'r ysgol a sut i ymateb i honiadau o fwlio neu gamdriniaeth ddifrifol.
- 13.5** Mae'r swyddogion yn cyflawni eu rôl yn briodol a nid ydynt yn camddefnyddio'u pwerau.
- 13.6** Mae cyfleoedd hefyd i ddisgyblion preswyl ddysgu a mabwysiadu rolau arweinwyr a rolau cyfrifoldeb drwy ddulliau heblaw'r system swyddogion neu system gyfatebol iddi.

Cymorth staff a chymorth allanol i ddisgyblion preswyl

CANLYNIAD

Mae disgyblion preswyl yn cael cymorth personol gan staff.

SAFON 14

- 14.1 Dylai pob disgybl preswyl gael un neu fwy nag un aelod o'r staff y gall ef neu hi droi ato i gael arweiniad personol neu leisio problem personol.**
- 14.2** Mae polisi clir y gall disgyblion preswyl fynd at unrhyw aelod o'r staff yn yr ysgol â phryder personol neu les, ac nid at staff dynodedig y tŷ neu staff diwtor yn unig, gan gynnwys staff o'r ddau gender.
- 14.3** Mae unrhyw system tiwtor personol yn gweithio'n effeithiol ac mae disgyblion preswyl yn defnyddio'r cysylltiad â'r tiwtor yn briodol i drafod materion personol a lles yn ogystal â materion academaidd neu weinyddol.
- 14.4** Mae'r ysgol yn nodiddisgyblion preswyl un person o leiaf (heblaw rhiant) y tu allan i staff preswyl a staff addysgu'r ysgol (a all fod yn gwmselwr ysgol) y gall y disgyblion preswyl gysylltu ag ef yn uniongyrchol ynghylch problemau neu bryderon personol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn hawdd cysylltu â'r person hwnnw.
- 14.5** Mae pob person a enwir ar gyfer cysylltiad o'r fath gan ddisgyblion preswyl wedi bod yn destun gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn yr un modd â staff yr ysgol, gyda chanlyniad boddhaol.
- 14.6** Mae disgyblion preswyl yn gwybod pwy yw'r person neu'r personau a ddynodwyd gan yr ysgol iddynt gysylltu â hwy ac nad sy'n staff yr ysgol, ac yn gwybod sut i gysylltu â hwy.

3. Cymorth Lles i Ddisgyblion preswyl

Triniaeth feddygol a chymorth cyntaf

CANLYNIAD

Mae disgyblion preswyl yn cael cymorth cyntaf a gofal iechyd yn ôl yr angen.

SAFON 15

- 15.1 Mae cymorth cyntaf addas a thriniaeth addas ar gyfer mân anhwylderau ar gael i ddisgyblion preswyl yn yr ysgol, ac mae cyfle i ddefnyddio gwasanaethau meddygol a deintyddol yn ôl yr angen.**
- 15.2** Mae trefniadau effeithiol i sicrhau sylw meddygol a deintyddol i ddisgyblion preswyl yn ôl yr angen (e.e. drwy gofrestru ag ymarferydd cyffredinol lleol, neu drwy swyddog meddygol yn ymweld â'r ysgol).
- 15.3** Mae unrhyw staff nyrsio dynodedig yn yr ysgol yn dal cofrestrriad nyrsio cyfredol, ac mae'r ysgol wrth eu penodi wedi cadarnhau eu bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ni ddefnyddir y teitl "nyrs" ar gyfer staff sydd heb eu cofrestru felly.
- 15.4** Dylai'r nyrs ysgol ddynodedig gael cyfle i fynd at feddyg a enwyd i gael canllawiau ac ymgynghoriad proffesiynol.
- 15.5** Gall disgyblion preswyl ddewis o'u gwirfodd a fydd staff yn mynd gyda hwy wrth ymweld â'r meddyg neu'r deintydd.
- 15.6** Cyn belled ag y bo'n bosibl, mae'r ysgol yn galluogi disgyblion preswyl i weld naill ai meddyg gwrywaidd neu feddyg benywaidd yn ôl dewis y disgybl preswyl.
- 15.7** Galluogir disgyblion preswyl i wneud dewisiadau priodol ynghylch triniaeth feddygol neu ddeintyddol, a fe gymerir y rhain i ystystiaeth pan yn gwneud trefniadau.
- 15.8** Rhoir triniaeth cymorth cyntaf a thriniaeth i fân anhwylder yn yr ysgol gan staff dynodedig cymwys (e.e. gan nyrs neu berson cymorth cyntaf neu o dan eu goruchwyliaeth).
- 15.9** Rhoir meddyginiaeth ragnodedig i'r disgybl preswyl y rhagnodwyd hi ar ei gyfer yn unig, yn unol â'r presgripsiwn neu'r cyfarwyddiadau gan y fferyllfa, ac ni chedwir hi i'w defnyddio'n gyffredinol gan ddisgyblion preswyl eraill na'i hychwanegu at "stoc" i'w defnyddio felly.
- 15.10** Mae'r ysgol wedi sicrhau, ac yn dilyn, cyngor meddyg neu nyrs cymwysedig mewn protocol ysgrifenedig ar roi meddyginiaethau di-bresgripsiwn "yr aelwyd" i ddisgyblion preswyl.

- 15.11** Cedwir meddyginiaethau presgripsiwn a meddyginiaethau'r "aelwyd", heblaw'r rhai a gedwir gan y disgyblion preswyl unigol sy'n gallu cymryd a rheoli eu meddyginiaeth eu hunain, yn ddiogel.
- 15.12** Mae disgyblion preswyl sy'n cadw a chymryd eu meddyginiaeth eu hunain yn cael eu hasesu gan staff er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cyfrifol i wneud hynny, ac maent yn gallu storio'u meddyginiaeth yn ddiogel ac yn briodol.
- 15.13** Cedwir cofnod ysgol ysgrifenedig (ar wahân i unrhyw gofnodion Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol) o bob meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf a roddir i ddisgyblion preswyl, gan roi'r enw, y dyddiad, y feddyginiaeth neu'r driniaeth, a'r rheswm dros ei rhoi (onid ar bresgripsiwn), a llofnodir y cofnod gan yr aelod staff cyfrifol a chaiff y cofnodion eu monitro'n rheolaidd gan aelod priodol dynodedig hŷn o'r staff.
- 15.14** Cedwir cofnod ysgol ysgrifenedig o bob anhwylder sylweddol, damwain sylweddol neu anaf sylweddol i ddisgyblion preswyl (p'un ai fel rhan o'r cofnodion meddyginiaeth a thriniaeth ysgol uchod neu ar wahân).
- 15.15** Mae caniatâd rhiant wedi'i gael ymlaen llaw i roi cymorth cyntaf a meddyginiaeth di-bresgripsiwn priodol i ddisgyblion preswyl, ac i geisio triniaeth feddygol neu ddeintyddol pan fo angen.

Gofal am ddisgyblion preswyl sâl

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl oruchwyliaeth a gofal digonol pan fyddant yn sâl.

SAFON 16

- 16.1** Dylid sicrhau bod aelod o'r staff yn bwrw golwg yn rheolaidd ar ddisgyblion preswyl sy'n sâl ac yn gofalu amdanynt yn ddigonol, a dylai'r disgybl preswyl allu cael cymorth parod a chyflym gan staff pan fo angen.
- 16.2** Bwrir golwg yn rheolaidd ar ddisgyblion preswyl a wahenir oddi wrth ddisgyblion eraill, mewn gwelyau neu fel arall, a chânt y gofal a'r sylw y mae arnynt eu hangen gan aelod o'r staff.
- 16.3** Mae disgyblion preswyl yn gallu galw am gymorth gan staff yn hwylus ac yn gyflym pan fyddant yn sâl, ddydd a nos.

Rheoli problemau iechyd a phroblemau personol

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl gymorth mewn perthynas ag unrhyw broblemau iechyd neu broblemau personol.

SAFON 17

- 17.1 Dylid darganfod a rheoli problemau iechyd sylweddol a phroblemau personol sylweddol disgyblion preswyl unigol yn briodol.**
- 17.2** Mae aelod priodol o'r staff yn paratoi ac yn gweithredu "cynllun lles" ysgrifenedig unigol y cytunwyd arno â riant ar gyfer unrhyw ddisgybl preswyl ag anghenion lles arbennig, ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sylweddol, neu nad yw'n gweld ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol o leiaf deirgwaith y flwyddyn.
- 17.3** Gwneir darpariaeth briodol i fodloni anghenion lles asessedig disgyblion preswyl gyda Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig ac mae cofnodion ysgrifenedig yn dangos hyn.
- 17.4** Caiff disgyblion preswyl â phroblemau gwlychu'r gwely eu cynorthwyo'n briodol i reoli'r broblem ac i osgoi chwithigrwydd di-alw.
- 17.5** Caiff disgyblion preswyl ag anawsterau meddygol (megis asma), ag anableddau, neu sydd angen triniaeth neu reolaeth arbennig arnynt oherwydd anghenion iechyd, anghenion emosiynol neu anghenion lles, eu cynorthwyo'n briodol, ac addesir gweithgareddau fel y bo'n briodol.
- 17.6** Caiff disgyblion preswyl sy'n hiraethu am eu cartref eu cynorthwyo'n briodol yn yr ysgol.
- 17.7** Caiff disgyblion preswyl sy'n mynd drwy gyfnodau o straen personol (e.e. oherwydd problemau gartref, neu alar) eu cynorthwyo'n briodol.
- 17.8** Ceir cysylltiadau â gwasanaethau proffesiynol allanol (e.e. gweithiwr cymdeithasol, seicolegydd), a defnyddir hwy yn ôl yr angen gan ddisgyblion preswyl unigol.

Gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal

CANLYNIAD

Nid yw disgyblion preswyl yn cael profiad o wahaniaethu amhriodol.

SAFON 18

- 18.1 O fewn yr ysgol nid oes gwahaniaethu amhriodol ar sail gender, anabledd, hil, crefydd, cefndir diwylliannol, cefndir ieithyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu allu academaidd neu allu mewn chwaraeon. Cymerir y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth ofalu am ddisgyblion preswyl, fel bod y gofal yn sensitif i wahanol anghenion.**
- 18.2** Mae dogfennau'r ysgol yn dangos agwedd briodol at gyfleoedd cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu amhriodol yn ei holl ffurfiau.
- 18.3** Ni chaiff grwpiau lleiafrifol y gellir eu hadnabod o fewn poblogaeth yr ysgol eu hallgáu na dioddef oddi wrth wahaniaethu. Caiff grwpiau lleiafrifol ymhlith y disgyblion preswyl eu cynorthwyo'n briodol a'u helpu i integreiddio.
- 18.4** Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion preswyl hynny nad ydynt am unrhyw reswm yn "fffitio i mewn" i'r ysgol, y tŷ neu'r corff o ddisgyblion.
- 18.5** Gwneir darpariaeth neu esemptiad priodol, os yw'n ddichonadwy ac y'i dymunwyd, ar gyfer disgyblion preswyl sydd ag anghenion neu ofynion arbennig o ran deiet, gwisg neu ddefodau crefyddol oherwydd eu cefndir crefyddol neu ddiwylliannol.
- 18.6** P'un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith yr ysgol rhoddir cymorth sy'n sensitif i ddiwylliant ac yn briodol i ddisgyblion preswyl nad yw prif iaith yr ysgol yn iaith gyntaf iddynt, yn y preswylio yn ogystal ag yn y cwricwlwm.

Cysylltiad â rhiant a ffonau

CANLYNIAD

Gall disgyblion preswyl gadw cysylltiad preifat â'u rhieni a'u teuluoedd.

SAFON 19

- 19.1 Galluogir disgyblion preswyl i gysylltu â'u rhieni a'u teuluoedd mewn preifatrwydd.**
- 19.2** Caiff cysylltiad disgyblion preswyl â'u rhieni ac ymweliadau rhieni â'u plant yn yr ysgol, ar adegau rhesymol, eu hyrwyddo o fewn yr ysgol.
- 19.3** Mae cyfle gan ddisgyblion preswyl i ddefnyddio ffôn i gysylltu â'u rhieni yn breifat ar adegau rhesymol heb orfod cael caniatâd y staff na rhoi gwybod iddynt. Mae nifer digonol o ffonau o'r fath i fodloni anghenion y disgyblion preswyl.
- 19.4** Gall disgyblion preswyl ysgrifennu llythyrau gartref a chael llythyrau o gartref (ac anfon E-bost neu negeseuon post llais gartref a'u cael o gartref os yw'r ysgol yn darparu'r cyfleusterau hyn i ddisgyblion preswyl), heb i staff nac eraill sensro neu ddarllen y llythyrau neu'r negeseuon, a heb orfod ceisio caniatâd oddi wrth y staff na rhoi gwybod iddynt.
- 19.5** Mae'r staff yn cysylltu â rhieni ynghylch unrhyw bryderon lles sylweddol sy'n ymwneud â'u plentyn yn yr ysgol.
- 19.6** Darperir disgyblion preswyl, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy hysbysiadau ger ffonau i ddisgyblion, ag un neu fwy o linellau cymorth priodol neu rifau cyswllt priodol y tu allan i'w ffonio os bydd problemau neu ofid.

Arian poced a gofal am eiddo

CANLYNIAD

Diogelir eiddo ac arian y disgyblion preswyl.

SAFON 20

20.1 Reasonable protection is provided for boarders' personal possessions and for any boarder's money or valuables looked after by the school.

20.2 Os oes system yn yr ysgol ar gyfer darparu neu ddsbarthu arian poced, neu ar gyfer gofalu am eiddo personol y disgyblion preswyl, gweithredir y system yn deg a chedwir cofnod ysgrifenedig cywir.

20.3 Mae gan bob disgybl preswyl le addas, diogel a hawdd mynd iddo i gadw eiddo personol a phethau gwerthfawr, (e.e. drôr y gellir ei gloi, cwpwrdd, locer, blwch neu gist).

Sefydlu disgyblion preswyl newydd

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl newydd eu cyflwyno i weithdrefnau a gweithrediadau'r ysgol, a galluogir hwy i setlo.

SAFON 21

- 21.1 Mae proses briodol o sefydlu a chanllawiau i ddisgyblion preswyl newydd.**
- 21.2** Dylid rhoi gwybodaeth addas i ddisgyblion preswyl newydd ynghylch arferion a rheolau preswyl, gan gynnwys gwybodaeth allweddol ar ffurf ysgrifenedig.
- 21.3** Mae trefniadau i ddisgyblion preswyl newydd gael canllawiau gan ddisgyblion preswyl mwy profiadol.

Gwarcheidwaid addysgol

CANLYNIAD

Diogelir lles disgyblion preswyl pan benodir unrhyw warcheidwaid addysgol gan yr ysgol.

SAFON 22

22.1 Dylai unrhyw warcheidwaid a benodir gan yr ysgol fod yn destun yr un gwiriadau recriwtio â'r staff, a dylid monitro eu gofal am ddisgyblion.²

22.2 Mae'r ysgol yn ei gwneud yn glir yn ysgrifenedig i'r rhieni a yw unrhyw warcheidwaid a ddefnyddir gan ysgol yn cael eu trefnu gan neu ar ran yr ysgol, neu gan rieni, gan egluro yn yr achos olaf, mae'r rhieni yn hytrach na'r ysgol sy'n gyfrifol am les eu plant pan fyddant yn aros gyda'r gwarcheidwaid o dan sylw.

22.3 Mae unrhyw warcheidwaid a benodir gan yr ysgol yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau recriwtio staff a nodir yn Safon 37 a gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, a rhaid i'r ysgol dderbyn canlyniad boddhaol cyn y gallant weithio dros yr ysgol.

22.4 Mae'r ysgol yn monitro yn rheolaidd addasrwydd unrhyw drefniadau gwarcheidiol y mae'n eu gwneud.

² Nid oes cyfrifoldeb rhiant gan warcheidwaid addysgol a benodir gan ysgolion. Mae'r safon hon yn gymwys pan benodir gwarcheidwad addysgol ar gyfer plentyn o dan 18 oed gan yr ysgol, gan aelod o'r staff fel rhan o'u gwaith ar ran yr ysgol, neu gan asiantaeth neu gorff ar ran yr ysgol. Os bydd ysgol yn darparu rhestrau o warcheidwaid posibl, dylai dogfennau ysgrifenedig ddangos yn glir ai'r ysgol neu'r rhiant sy'n gyfrifol am y trefniadau a wneir ac felly am les y plentyn. Mae canllawiau i ysgolion ar warcheidwaid addysgol ar gael yn y gyfres "Boarding Briefing" a gyhoeddir gan Gymdeithas yr Ysgolion Preswyl.

Monitro cofnodion

CANLYNIAD

Mae asesiadau risg a chadw cofnodion ysgol yn cyfrannu at les disgyblion preswyl.

SAFON 23

- 23.1 Mae'r Pennaeth, neu aelod hŷn o staff yr ysgol, yn monitro cofnodion yr ysgol ar asesiadau risg, cosbau, cŵynion a damweiniau yn gyson, er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n gofyn am gamau gweithredu.**
- 23.2** Caiff cofnodion o asesiadau risg, y prif gosbau, cŵynion a damweiniau eu monitro'n rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) gan y Pennaeth neu gan aelod hŷn dynodedig o'r staff.³
- 23.3** Cymerir camau rhesymol i leihau'r risgiau a nodir gan asesiadau risg.
- 23.4** Cymerir camau mewn perthynas ag unrhyw grynhoad neu duedd mewn cosbau, tramgwyddau, cŵynion neu ddamweiniau a gofnodir (e.g. yn ymwneud â lleoedd penodol, grwpiau neu amserau).

³ gweler Safonau 28 a 47 sy'n ymwneud ag asesiadau risg.

Arlwyo

CANLYNIAD

Mae'r disgyblion preswyl yn cael darpariaeth arlwyo o ansawdd da.

SAFON 24

- 24.1 Dylid darparu prydau bwyd i ddisgyblion preswyl sy'n ddigonol mewn maint, ansawdd, dewis a gwneir darpariaeth ar gyfer anghenion deietegol, meddygol neu grefyddol arbennig.**
- 24.2** Mae'r prydau bwyd a ddarperir i ddisgyblion preswyl yn faethlon, yn rhesymol gytbwys, ac yn ddigonol o ran mynychder, maint, ansawdd, hylendid a thymheredd.
- 24.3** Mae gan ddisgyblion preswyl ddewis o brif gwrs yn y prif brydau, gan gynnwys dewis llysieuol.
- 24.4** Mae'r llestri a'r cytleri yn ddigonol ac yn briodol lân.
- 24.5** Mae'r ystafelloedd bwyta a'r dodrefn yn addas ac o ddigon o faint ar gyfer y niferoedd ac oedrannau'r disgyblion preswyl sy'n bwyta.
- 24.6** Mae digon o amser yn ystod y prydau bwyd, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw amser wrth ddisgwyl am fwyd, i'r disgyblion preswyl orffen eu prydau'n iawn.
- 24.7** Mae staff a disgyblion sy'n ymwneud â pharatoi bwyd ar gyfer eraill wedi cael hyfforddiant priodol mewn trafod bwyd a hylendid bwyd
- 24.8** Nid oes unrhyw argymhellion sylweddol gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol sydd heb eu gweithredu.

Dŵr yfed a byrbrydau

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl gyfle i gael bwyd a dŵr yfed yn ychwanegol at y prif brydau bwyd.

SAFON 25

- 25.1 Mae gan ddisgyblion preswyl gyfle i gael dŵr yfed yn y manau preswyl i'r manau addysgu, a'r cyfle i gael bwyd neu'r dull i baratoi bwyd ar adegau rhesymol yn ychwanegol at y prif brydau.**
- 25.2** Mae dŵr yfed ar gael ym mhob tŷ preswyl ar bob adeg resymol.
- 25.3** Mae dŵr yfed ar gael i ddisgyblion preswyl yn ystod y diwrnod ysgol ar adegau rhesymol yn ychwanegol at amserau bwyd (os yw'r ddarpariaeth hon yn ymyl tapiau basnau ymolchi, mae'r ysgol wedi cadarnhau bod y cyflenwad dŵr o ansawdd y gellir ei yfed).
- 25.4** Mae byrbrydau ar gael i ddisgyblion preswyl ar adegau rhesymol yn ychwanegol at brif amserau bwyd – naill ai wedi'u darparu gan yr ysgol, y gall disgyblion preswyl eu prynu, neu wedi'u paratoi gan y disgyblion preswyl eu hunain.
- 25.5** Mae gan ddisgyblion preswyl hŷn mewn ysgolion i oedran hŷn gyfleusterau i storio bwyd priodol a pharatoi yn hylan eu byrbrydau a'u diodydd poeth ac oer eu hunain..

Rhagofalon a driliau tân

CANLYNIAD

Diogelir disgyblion preswyl rhag risg tân.

SAFON 26

- 26.1 Dylai disgyblion preswyl a staff preswyl fod yn ymwybodol o weithdrefnau gwacáu llety preswyl ar frys. Dylai'r ysgol gydymffurfio ag argymhellion y Gwasanaeth Tân, a dylai gynnal a chofnodi yn rheolaidd asesiadau risg yn ymwneud â tân, ynghyd â driliau tân ac unrhyw brofion rheolaidd a argymhellir gan y Gwasanaeth Tân.**
- 26.2** Mae disgyblion preswyl yn gwybod y gweithdrefnau gwacáu brys o fannau cysgu a manau byw pob tŷ preswyl.
- 26.3** Cynhelir driliau tân yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) yn ystod "amser preswyl".
- 26.4** Profir goleuo argyfwng, larymau tân, ac offer ymladd tân yn rheolaidd, a cheir manylion ar hyn yn y cofnodion priodol.
- 26.5** Nid oes argymhellion sylweddol gan y Gwasanaeth Tân sydd heb eu gweithredu y tu hwnt i unrhyw amserlen a osodwyd gan y Gwasanaeth er eu gweithredu.

Galwadau beichus ar ddisgyblion preswyl

CANLYNIAD

Diogelir lles y disgyblion preswyl pan benodir unrhyw warcheidwaid addysgol gan yr ysgol.

SAFON 27

- 27.1 Mae'r ysgolion lle mae galwadau anarferol neu arbennig o feichus ar ddisgyblion preswyl yn sicrhau eu bod yn briodol i'r disgyblion preswyl o dan sylw ac nad ydynt yn effeithio mewn dull annerbyniol ar les y disgyblion preswyl.**
- 27.2** Mae unrhyw bryderon neu faterion lles arbennig neu faterion sy'n codi o alwadau anarferol neu arbennig o feichus ar ddisgyblion preswyl (e.e. rhaglenni perfformio dwys neu ymarfer chwaraeon yn ychwanegol at y diwrnod ysgol arferol) wedi cael eu canfod ac yn cael eu rheoli'n foddhaol.
- 27.3** Mae gan ddisgyblion preswyl amser rhydd rhesymol bob dydd ochr yn ochr ag unrhyw alwadau mawr eraill ar eu hamser.

Lletya plant heblaw disgyblion

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles unrhyw blant heblaw disgyblion yr ysgol tra cânt eu lletya yn yr ysgol.

SAFON 28

28.1 Diogelir lles unrhyw blant nad sy'n ddisgyblion tra cânt eu lletya yn yr ysgol.⁴

28.2 Mae unrhyw weithgareddau preswyl pan fydd yr ysgol yn lletya plant heblaw ei disgyblion preswyl ei hun ac yn gofalu amdanynt (e.e. gweithgareddau preswyl yn y gwyliau) yn darparu'n foddhaol ar gyfer goruchwyllo, lles a diogelwch y plant hynny tra lletyir hwy yn yr ysgol. Nid yw hyn yn gymwys os corff arall sy'n gyfrifol am y plant.

4 Mae'r ysgol yn lletya plant heblaw ei disgyblion preswyl ei hun os yw'r ysgol, neu unrhyw aelod o'i staff fel rhan o'u gwaith dros yr ysgol, yn gyfrifol am edrych ar eu hôl yn ystod eu harhosiad yn yr ysgol. Dylid ystyried disgyblion sy'n ymwelwyr sy'n lletya yn yr ysgol, hyd yn oed os yw eu staff eu hunain gyda hwy, fel "disgyblion preswyl dros dro". Nid yw'r safon hon yn gymwys os yw'r ysgol wedi gosod ei llety i gorff arall, a fydd yn gyfrifol ei hun dros edrych ar eu hôl.

Gweithgareddau risg uchel ac asesu risg

CANLYNIAD

Amddiffynnir diogelwch a lles disgyblion preswyl yn ystod gweithgareddau risg uchel.

SAFON 29

- 29.1 Dylid goruchwyllo gweithgareddau risg uchel a ddarperir i ddisgyblion preswyl yn gymwys a gweithredu mesurau diogelwch digonol a phriodol ar eu cyfer.**
- 29.2** Mae asesiadau risg yn cael eu gweithredu, a chofnodir hwy'n ysgrifenedig, mewn perthynas â gweithgareddau risg uchel i ddisgyblion preswyl (gan gynnwys gweithgareddau cadét a gweithgareddau eraill mewn lifrai, a gweithgareddau neu hyfforddiant y maer ysgol yn eu trefnu i gyrff allanol eu darparu), a chymerir mesurau rhesymol i leiafu risgiau diangen.
- 29.3** Caiff gweithgareddau adnabyddadwy fel rhai risg uchel a nodir eu hyfforddi neu'u goruchwyllo gan oedolion sy'n dal y cymhwyster perthnasol gan y corff neu'r gymdeithas lywodraethu genedlaethol briodol ar gyfer y chwaraeon neu'r gweithgaredd o dan sylw, pan ellir dynodi corff o'r fath; ac, os na ellir dynodi corff o'r fath, gall yr ysgol ddangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i gadarnhau bod y rhai sy'n goruchwyllo neu'n hyfforddi gweithgareddau o'r fath yn gymwys i wneud hynny.
- 29.4** Cymerir camau diogelwch, a darperir offer diogelwch, i ddisgyblion preswyl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau adnabyddadwy fel gweithgareddau risg uchel, yn unol ag argymhellion y corff neu'r gymdeithas lywodraethu genedlaethol briodol ar gyfer y chwaraeon neu'r gweithgaredd o dan sylw, pan ellir enwi corff o'r fath.
- 29.5** Sicrheir caniatâd rhiant ymlaen llaw i ddisgyblion preswyl gymryd rhan mewn gweithgareddau adnabyddadwy fel gweithgareddau risg uchel y maer ysgol yn eu rhedeg neu yn eu trefnu gyda grwpiau neu gyrff eraill.
- 29.6** Os yw'r ysgol yn cymryd disgyblion preswyl i ganolfan sy'n darparu gweithgareddau y mae angen eu trwyddedu o dan Reoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur, gall yr ysgol ddangos ei bod wedi gwirio bod y ganolfan wedi'i thrwyddedu felly.⁵

⁵ Mae'n debygol y bydd angen trwyddedu os yw cwmni masnachol neu awdurdod lleol yn darparu ogofeuo, dringo, abseilio, hirdeithio, merlota, beicio mynydd, sgïo oddi ar y piste, neu chwaraeon dŵr megis canŵio, rafftio a hwylio. Mae trwyddedu yn cynnwys darpariaethau diogelwch, ac nid yw'n cynnwys gwiriadau ar addasrwydd staff i weithio gyda phlant.

Cael gafael ar wybodaeth a defnyddio cyfleusterau lleol

CANLYNIAD

Mae cyfle gan ddisgyblion preswyl i gael gafael ar wybodaeth a defnyddio cyfleusterau y tu allan i'r ysgol.

SAFON 30

- 30.1 Mae cyfle gan ddisgyblion preswyl i gael gafael ar wybodaeth am ddigwyddiadau yn y byd y tu allan i'r ysgol, a chyfle i ddefnyddio cyfleusterau lleol sy'n briodol ar gyfer eu hoedran.**
- 30.2** Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio defnydd disgyblion preswyl ar unrhyw gyfleusterau lleol y tu allan i'r ysgol yn briodol i oedran y disgyblion preswyl o dan sylw, ac mae'r cyfleusterau a ddefnyddir o fath addas heb risgiau afresymol i ddisgyblion preswyl.
- 30.3** Mae disgyblion preswyl a staff yn cadarnhau bod disgyblion preswyl sy'n ymadael â safle'r ysgol heb aelod o staff yn gwneud hynny mewn grwpiau oedran priodol, ac taw disgyblion preswyl hŷn mewn ysgolion oedran hŷn yn unig sy'n cael caniatâd i ymadael â safle'r ysgol ar eu pen eu hun.
- 30.4** Mae unrhyw weithgaredd gwasanaeth cymunedol gan ddisgyblion preswyl y tu allan i'r ysgol yn addas ac yn cael ei oruchwylio'n addas gyda lefelau diogelwch derbyniol.
- 30.5** Mae disgyblion preswyl yn cael cyfle i weld papurau newydd, teledu a chyfryngau gwybodaeth addas eraill, yn ddarostyngedig i ddymuniadau'r rhieni.

4. Staffio

Goruchwyllo disgyblion preswyl

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl eu goruchwyllo'n ddigonol gan staff.

SAFON 31

- 31.1 Dylai'r staff sy'n goruchwyllo disgyblion preswyl y tu allan i amser addysgu fod yn ddigonol, o ran nifer a threfniant, ar gyfer oedran, nifer ac anghenion y disgyblion preswyl, ac ar gyfer y lleoedd a'r gweithgareddau o dan sylw.**
- 31.2** Mae rota ddyletswydd yn cael ei dilyn sy'n dangos lefelau boddhaol o oruchwyllo staff dros y disgyblion preswyl yn gynnar yn y bore, pan fydd egwyl yn y diwrnod ysgol, yn ystod amser paratoi gyda'r nos, gyda'r nos y tu allan i amser paratoi, ac ar benwythnosau yn ystod y dydd a chydau'r nos. Mae lefelau goruchwyllo gan y staff yn foddhaol, o ran nifer a chymhwyster y staff, ar gyfer nifer, oedran a natur y boblogaeth breswyl, cynllun yr ysgol a'r tiroedd, ac amrediad a natur y gweithgareddau o dan sylw.
- 31.3** Mae'r disgyblion preswyl bob amser o dan gyfrifoldeb aelod o'r staff sydd wedi'u henwi. Mae pob disgybl preswyl yn gwybod pa aelod staff sy'n gyfrifol amdanynt bob amser, yn gallu cysylltu â'r aelod staff os bydd angen gwneud hynny, ac mae'r aelod staff yn gallu galw am gymorth gan y staff, a'i gael, os bydd ei angen.
- 31.4** Mae trefniadau boddhaol i oruchwyllo unrhyw ddisgyblion preswyl sy'n dal i letya'n yr ysgol yn ystod penwythnosau "exeat", hanner tymor a chyfnodau gwyliau.
- 31.5** Mae trefniadau cyflenwi boddhaol ar gyfer salwch ac absenoldeb staff preswyl.
- 31.6** Nid yw disgyblion preswyl na staff yn dweud bod lefel annigonol o oruchwyllo gan y staff dros ddisgyblion preswyl gyda'r nosau neu ar y penwythnosau, ac mae lefelau goruchwyllo gan staff yn parhau'n ddigonol ar yr adegau hynny y mae staff a disgyblion preswyl yn nodi fel yr adegau â'r lefelau staffio "mwyaf main".
- 31.7** Mae'r grŵp staff sy'n preswyl sydd mewn cysylltiad o ddydd i ddydd â disgyblion preswyl yn cynnwys staff o'r ddau gender os yw hyn yn ymarferol o fewn strwythur staffio'r ysgol.

Goruchwylio disgyblion preswyl sydd yn gadael safle'r ysgol

CANLYNIAD

Mae goruchwyliaeth staff dros y disgyblion preswyl yn cael ei gynnal yn effeithiol a gall y disgyblion preswyl gysylltu â'r staff sy'n eu goruchwylio yn ôl yr angen.

SAFON 32

32.1 Dylai disgyblion preswyl fod o dan oruchwyliaeth gyffredinol aelod penodedig o'r staff ar bob adeg, a dylent allu cysylltu ag aelod o'r staff mewn argyfwng.

32.2 Dylai'r nifer o staff sy'n cyd-deithio â disgyblion preswyl ac yn gofalu amdanynt ar dripriau wedi'u trefnu i ffwrdd o safle'r ysgol, ymweliadau dros nos a thripriau tramor o leiaf fodloni canllawiau ar y cymarebau gofynnol⁶, â chymhareb uwch o staff i ddisgyblion os yw natur y trip yn gwneud hynny'n angenrheidiol. Dylai nifer a threfniant y staff fod yn ddigonol i oruchwylio'r disgyblion a'r gweithgareddau o dan sylw, i sicrhau nad yw pobl nad ydynt ar staff yr ysgol neu bobl nad ydynt yn ddarostyngedig i wiriadau recriwtio'r ysgol ar gyfer ymwneud â disgyblion preswyl (gan gynnwys hyfforddwr gweithgareddau) yn cael cyfle sylweddol heb ei oruchwylio i fynd at ddisgyblion preswyl, ac i ddelioâ materion brys y gellir eu rhagweld. Os un aelod o'r staff yn unig sydd â gofal disgyblion ar drip, mae gan yr aelod staff hwnnw fodd i alw am gymorth gan o leiaf un aelod arall o'r staff os oes angen.

32.3 Mae'r staff y gwybod ble mae'r disgyblion preswyl sydd yn eu gofal (neu'n gwybod sut i ddarganfod ble maent) bob amser – mae hyn yn cynnwys system lofnodi mynd a dod i ddisgyblion preswyl y caniateir iddynt fynd allan o'r ysgol.

32.4 Mae gan yr ysgol bolisi digonol, ac mae'n ei ddilyn, ar gyfer diogelu a goruchwylio disgyblion preswyl yn ystod teithiau, gan gynnwys cludiant ysgol, defnyddio cerbydau preifat a defnydd gan yr ysgol o gludiant cyhoeddus.

32.5 Nid yw myfyrwyr ar gyfnod bwlch yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain yn yr ysgol â gofal disgyblion preswyl heb fod modd iddynt gysylltu ag aelod staff sy'n a bod yr aelod hwnnw ar y safle.

32.6 Nid yw myfyrwyr ar gyfnod bwlch yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain tra i ffwrdd o'r ysgol â gofal disgyblion preswyl heb bod aelod o staff yn cyd-deithio â hwy.

⁶ Mae cyhoeddiad Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Ysgol yn cynghori cymarebau staff: disgyblion preswyl ar gyfer tripriau a drefnir i ffwrdd o safle'r ysgol o un aelod o'r staff am bob 10-15 o ddisgyblion preswyl 8 oed i 10 oed, un aelod o'r staff am bob 15-20 o ddisgyblion preswyl 11 oed a throsodd, wedi'i gynyddu i un am bob 10 o ddisgyblion preswyl ar gyfer tripriau tramor neu ymweliadau dros nos.

Goruchwyliaeth nos ar y preswylwyr

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl eu goruchwylio'n ddigonol yn ystod y nos.

SAFON 33

- 33.1 Dylai staff fod yn bresennol, ac yn hawdd i ddisgyblion preswyl fynd atynt yn ôl yr angen, ym mhob tŷ preswyl yn ystod y nos.**
- 33.2** Mae o leiaf un aelod o'r staff sy'n oedolyn yn cysgu ym mhob tŷ preswyl yn ystod y nos, ac yn gyfrifol am y disgyblion preswyl yn y tŷ hwnnw⁷.
- 33.3** Mae aelodau ychwanegol o'r staff yn cysgu ym mhob tŷ preswyl os oes angen oherwydd oedran a nifer plant iau, neu oherwydd anghenion penodol y disgyblion preswyl.
- 33.4** Mae dulliau boddhaol gan ddisgyblion preswyl i gysylltu ag aelod o'r staff ym mhob tŷ yn ystod y nos.
- 33.5** Mae'r modd gan y staff i wybod pa ddisgyblion preswyl sy'n cysgu yn y tŷ bob nos (e.e. rhag ofn tân neu ddisgybl preswyl disgwylidig ar goll).

⁷ Os yw tŷ yn cynnwys mwy nag un adeilad, ni chaiff aelod staff sy'n cysgu i mewn yn un o'r adeiladau hynny fod yn gyfrifol am fwy nag un adeilad oni bai fod yr adeiladau yn union gyfagos, bod yr aelod staff cyfrifol yn hawdd i ddisgyblion preswyl gysylltu ag ef yn ystod y nos, bod yr oruchwyliaeth staff yn gwbl foddhaol yn ymarferol, a bod y disgyblion preswyl yn perthyn i'r oedran hŷn mewn ysgol hŷn (disgyblion chweched dosbarth fel arfer).

Disgrifiad swydd, sefydlu, goruchwyllo a hyfforddi staff

CANLYNIAD

Gofelir am ddisgyblion preswyl gan staff sydd â dyletswyddau preswyllo penodol, gyda chynefino digonol a goruchwylloeth digonol mewn perthynas â'r rhan yma o'u cyfrifoldebau.

SAFON 34

- 34.1 Mae gan bob staff â dyletswyddau preswyllo⁸ ddisgrifiadau swydd sy'n adlewyrchu'r dyletswyddau hynny, maent yn cael hyfforddiant sefydlu ar y trefniadau lles a byw ar gyfer preswylwyr pan benodir hwy, ac maent yn cael goruchwylloeth rheolaidd mewn perthynas â'r rhan hon o'u dyletswyddau.**
- 34.2** Gwneir rôl unrhyw briod neu bartner i staff o fewn y tai preswyllo yn glir.
- 34.3** Mae trefniadau clir ar gyfer goruchwyllo staff atodol a staff contract ac unrhyw staff dros dro neu staff asiantaeth neu wirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol.
- 34.4** Mae'r rhaglen hyfforddi sefydlu i'r hollstaff preswylloyn cynnwys canllawiau ar amddiffyn plant.
- 34.5** Mae proses briodol ar gyfer adolygu yn reolaidd perfformiad pob aelod o'r staff sydd â dyletswyddau preswyllo gan aelod hŷn neu fwy profiadol o'r staff (e.e. drwy gyfarfodydd goruchwyllo unigol neu drwy system werthuso staff).
- 34.6** Mae disgrifiadau swydd yn datgan yn glir, ac mae'r staff eu hunain yn deall yn glir pwy yw'r person y mae pob aelod o'r staff â dyletswyddau preswyllo'n atebol iddo.

⁸ Drwy gydol y Safonau hyn, mae cyfeiriadau at staff â dyletswyddau preswyllo yn cynnwys Metron ac unrhyw gynorthwydd neu staff ar flwyddyn fwllch sy'n gweithio gyda disgyblion preswyllo.

Canllawiau i staff ar arferion preswyllo

CANLYNIAD

Gofelir am ddisgyblion preswyl gan staff sy'n dilyn polisiau ac arferion preswyllo clir.

SAFON 35

- 35.1 Darperir canllawiau ysgrifenedig cyfredol ar bolisiau ac arferion preswyllo'r ysgol i bob aelod staff sydd â dyltswyddau preswyllo⁹.**
- 35.2** Mae llawlyfr staff diweddar neu ganllawiau ysgrifenedig tebyg, a roddir i'r holl staff â dyletswyddau preswyllo.
- 35.3** Mae canllawiau o'r fath yn cynnwys agwedd yr ysgol tuag at breswyllo a diogelu a hybu lles disgyblion preswyl; amddiffyn plant; polisiau gwrth-fwlio a sancsiynau; systemau tiwtor ysgol a swyddogion ysgol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt; ymateb i broblemau personol disgyblion preswyl; trafod cŵynion gan ddisgyblion preswyl a rhieni; unrhyw nodweddion arbennig sy'n perthyn I breswyllo; a threfn y diwrnod preswyllo.
- 35.4** Mae yna weithdrefn disgyblu staff, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer atal staff yn rhagofalus os oes angen gwneud hynny wrth ddisgwyl ymchwiliad neu wrth ddisgwyl penderfyniad terfynol yn sgil honiadau. Mae'r weithdrefn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer canllawiau a chymorth i staff tra byddant wedi'u hatal neu yn ystod ymchwiliadau tra bydd honiadau yn eu herbyn yn destun ymchwiliad.

⁹ Definition of working with children is as used by the Criminal Justice and Court Services Act 2000.

Perthynas staff / disgyblion preswyl

CANLYNIAD

Mae perthynas iach rhwng y staff a'r disgyblion preswyl.

SAFON 36

- 36.1 Mae'r berthynas rhwng y staff a'r plant wedi ei seilio ar y naill yn parchu a deall y llall ac ar ffiniau eglur proffesiynol a phersonol sy'n effeithiol i'r unigolion a'r grŵp.**
- 36.2** Mae'r staff a gyflogir yn yr ysgol yn gallu gosod a chadw ffiniau ynglŷn ag ymddygiad derbyniol sy'n ddiogel, cyson a dealladwy i'r plant.
- 36.3** Mae'r disgwyliadau o ran ymddygiad y staff a'r plant yn cael eu deall yn eglur ac maent wedi eu negodi gan y rhai sy'n byw a gweithio yn yr ysgol, gan gynnwys arfer rheolaeth briodol dros blant er mwyn eu lles eu hunain ac i ddiogelu eraill.
- 36.4** Wrth wneud penderfyniadau beunyddiol, mae'r staff yn cadw'r ddysgl yn wastad yn briodol rhwng
- dymuniadau a hoffterau pob plentyn,
 - anghenion plant unigol,
 - anghenion y grŵp o blant sy'n preswyl ar y pryd, a
 - diogelu eraill rhag newid.
- 36.5** Gofelir am y plant yn yr ysgol heb fod yn bleidiol nac yn elyniaethus tuag at yr un unigolyn na grŵp yn yr ysgol.
- 36.6** Mae cyfathrebu rhwng y staff a'r plant yn yr ysgol yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac ymdrinnir ag anghydfodau rhwng y plant a'r staff yn rhesymol.

Preifatrwydd

CANLYNIAD

Caiff preifatrwydd personol disgyblion preswyl ei barchu.

SAFON 37

37.1 Mae gan yr ysgol a'r staff barch at ddymuniadau plentyn o ran preifatrwydd a chyfrinachedd, i'r graddau bod hynny'n gyson â gofal da a'r angen i amddiffyn y plentyn.

37.2 Mae'r ysgol yn darparu canllawiau gweithredu i'r staff ar breifatrwydd a chyfrinachedd, sy'n ymdrin â'r materion canlynol:

- i. y staff ac eraill yn gweld cofnodion achosion
- ii. rhoi gwybodaeth i eraill sydd â goblygiadau o ran diogelu plant
- iii. manylion ymarferol ynglŷn â sut mae mynd mewn i ystafelloedd, ystafelloedd ymolchi a thoiledau'r plant
- iv. trefniadau ynglŷn â chael cawod a baddon a defnyddio'r toiledau
- v. materion personol megis y misglwyf
- vi. golchi dillad
- vii. gofal personol agos i blant anabl, gan gynnwys rhoi meddyginiaeth a thriniaeth glinigol fewnlifol os yw hynny yn briodol.

37.3 Mae cofnodion plant yn cael eu cadw yn ddiogel, ac mae eu cynnwys yn aros yn gyfrinachol a'u rhannu dim ond ag unigolion sydd â'r hawl i weld neu gael gwybod am eu cynnwys er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn.

37.4 Mae'r staff yn gwybod sut mae ymdrin â'r wybodaeth y maent yn ei chael yn gyfrinachol pan fo ei hangen i ddiogelu'r plentyn, a sut mae ei rhannu.

37.5 Yn ddarostyngedig i 37.6 isod, caiff y plant ddefnyddio ffonau yn breifat i wneud neu dderbyn galwadau preifat a hynny heb ganiatâd y staff. Caiff y plant ysgrifennu a derbyn llythyrau heb iddynt gael eu darllen gan y staff a heb ganiatâd y staff. Os yw plant yn cael defnyddio e-bost neu gyfleusterau negeseuon llais, y maent yn gallu anfon a derbyn negeseuon drwy'r cyfryngau hyn heb iddynt gael eu darllen gan y staff. Os oes angen cynorthwyo neu oruchwylio plentyn, mae'r staff yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r ffôn, e-bost, negeseuon testun neu lais a hynny heb ymyrryd yn eu preifatrwydd, os oes modd. Mae gwybodaeth ar gael am wasanaethau (e.e. llinellau cymorth) y bydd y plant efallai am eu defnyddio yn gyfrinachol (e.e. wedi ei rhoi ger y ffôn) ar ddiwyg addas (ee Braille, llythrennau breision neu ar dâp). Os oes angen, mae'r plant yn cael cymorth ychwanegol i ddefnyddio offer cyfathrebu.

- 37.6** Os oes seiliau cadarn dros gredu bod lles plentyn dan fygythiad drwy ddefnyddio'r ffôn, negeseuon testun neu ohebiaeth drwy'r post neu yn electronig (megis bod plentyn dan fygythiad o gael ei gaffael i buteinio), dylai'r staff ymyrryd yn briodol i ddiogelu lles y plentyn.
- 37.7** Mae'r ysgol yn darparu lle i blant gwrrdd â'u rheini ac eraill yn breifat.
- 37.8** Mae'r staff yn sensitif i faterion y ddau ryw, yn enwedig pan fônt yn ymdrin â phlant o'r rhyw arall.
- 37.9** Pan yw'r staff yn goruchwyllo'r plant, nid ydynt yn ymyrryd yn amhriodol nac mewn ffordd a fydd yn peri i'r plant deimlo yn chwithig.
- 37.10** Pan fo ysgol yn darparu llety i blant sydd ag angen cymorth y staff ar gyfer gofal personol agos neu weithrediadau'r corff, mae pob aelod o staff sy'n ymwneud â hynny wedi cael ei hyfforddi yn briodol ac wedi eu darparu â chanllawiau gweithredu ysgrifenedig sy'n eglur ac addas ynghylch darparu cymorth o'r fath, ac sy'n cael eu dilyn mewn gwirionedd. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y ffiniau i gadw atynt (gan gynnwys darparu gofal o'r fath i blant o'r rhyw arall) a'r gofyniad bod y plentyn dan sylw, os oes modd, yn cael mynegi ei ddewisiadau a rhoi cysyniad ynglŷn â'r ddarpariaeth o'i ofal personol agos. Mae'r staff sy'n ymwneud â hynny hefyd wedi cael unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i ddefnyddio unrhyw offer ar gyfer gofalu am y plentyn (e.e. lifftiau neu offer codi), ac maent yn gymwys i'w ddefnyddio yn ddiogel ar gyfer y plentyn dan sylw.
- 37.11** Mae'r ysgol yn darparu canllawiau, sydd ar gael i'r staff a'r plant, ynglŷn ag achosion pan fo angen chwilio eiddo plentyn. Ni cheir chwilio eiddo plant ond pan wneir hynny yn unol â'r canllawiau, a dim ond os oes sail eglur dros ei wneud, sydd wedi ei esbonio i'r plentyn dan sylw, a dim ond os byddai lles y plentyn hwnnw neu rai eraill dan fygythiad os na chwiliwyd yr eiddo. Rhoddir manylion pob chwilio ar glawr, gan ddangos amser a dyddiad y chwilio a'r rhesymau dros ei wneud, gan nodi'r hyn a gafwyd, os rhywbeth, yn ogystal â phwy wnaeth y chwilio a phwy oedd yn bresennol ar y pryd, a bydd hynny, os oes modd, yn cynnwys y plentyn. Dylai cofnodion o'r fath gael eu llofnodi gan bawb oedd yn bresennol gan gynnwys, os oes modd, y plentyn.

Recriwtio staff a gwiriadau ar oedolion eraill

CANLYNIAD

Mae dewis a gwirio grymus o'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion preswyl.

SAFON 38

38.1 Mae trefniadau recriwtio pob staff (gan gynnwys staff atodol a'r rhai sy'n gweithio ar sail contract neu sesiwn) a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda disgyblion preswyl (fel y maent wedi'u diffinio yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000) yn cynnwys gwiriadau drwy system wirio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (gyda manylion fel y bo'n briodol), gyda chanlyniad boddhaol. Mae yna broses recriwtio foddhaol a gofnodir yn ysgrifenedig.

38.2 Mae system yr ysgol ar gyfer recriwtio staff (gan gynnwys staff atodol, staff o dan contract, staff sesiwn a gwirfoddolwyr) a fydd yn gweithio gyda disgyblion preswyl yn cynnwys pob un o'r camau canlynol cyn penodi, a gellir gwirio bod y camau hynny wedi'u cymryd drwy edrych ar y cofnodion recriwtio:

- gwiriad o bwy yw'r person ar sail dogfen swyddogol megis pasbort neu dystysgrif eni
- gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar y lefel uchaf sydd ar gael ar gyfer y rôl o dan sylw
- o leiaf ddau dystlythyr ysgrifenedig, gan gynnwys tystlythyr gan y cyflogwr diweddaraf, gyda llythyr cais am dystlythyr sy'n gofyn yn benodol i bob canolwr ddatgan unrhyw reswm y mae'n gwybod amdano pam na ddylid cyflogi'r person i weithio gyda phlant ac na ddylid fod unrhyw gamddatganiad neu hepgor o bwys sy'n berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd
- cysylltiad uniongyrchol gan yr ysgol â phob un o'r canolwyr i wirio'r tystlythyr
- cyfweiliad, gyda chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad
- gwiriad ar y prawf o gymwysterau perthnasol
- gofyniad i bob ymgeisydd roi hanes cyflogaeth llawn, a datganiad y gall yr ysgol gysylltu ag unrhyw gyflogwr blaenorol
- cysylltiad gan yr ysgol â phob cyflogwr blaenorol y bu'r ymgeisydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio ar ei ran, i wirio'r rhesymau pam y daeth y gyflogaeth i ben
- esboniad am unrhyw fylchau yn y CV, gyda chofnod ysgrifenedig gan yr ysgol fod yr ysgol wedi holi am esboniadau am y bylchau a'u bod yn foddhaol.

- 38.3** Mae penodi myfyrwyr cyfnod "bwllch" yn cynnwys pob elfen bosibl o'r system wirio recriwtio uchod (hyd yn oed os yw'r ysgol yn gwybod am y myfyriwr o dan sylw neu fod ysgol dramor yr ymddiriedir ynddi yn gwybod amdano neu os caiff ei recriwtio drwy asiantaeth).
- 38.4** Os caiff myfyriwr staff ar gyfnod "bwllch" ei recriwtio o dramor, mae'r ysgol yn cael "tystysgrif ymddygiad da" neu'r hyn sy'n cyfateb iddi oddi wrth awdurdodau perthnasol y wlad lle mae cartref y myfyriwr os oes cyfleusterau felly ar gael¹⁰.
- 38.5** Mae cynigion i benodi staff ac eraill sy'n ddarostyngedig i'r gwiriadau recriwtio uchod yn cael eu gwneud yn amodol ar gwblhau gwiriadau Cofnodion Troseddol yn foddhaol a thystlythyrau boddhaol os na chafwyd hwy i gyd eisoes.
- 38.6** Nid yw aelodau o'r staff sy'n ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn 38.2 yn dechrau gweithio (na phreswyl) yn yr ysgol nes cwblhau'r holl wiriadau yn foddhaol a chael y tystlythyrau. Fel eithriad, gall aelod o staff ddechrau gweithio os yw rhai tystlythyrau neu wiriadau eto i ddod, ond mae'n rhaid cwblhau holl wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mewn achosion o'r fath, rhaid wrth dystiolaeth fod pob ymdrech wedi'i gwneud i fynd ar ôl y gwiriadau a'r tystlythyrau, a rhaid i'r person gael ei oruchwyllo fel nad oes ganddo fynediad sylweddol heb ei oruchwyllo at ddisgyblion preswyl.
- 38.7** Cynhwysir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a thystlythyrau yn y broses recriwtio ar gyfer unrhyw Warcheidwad a drefnir gan yr ysgol, a phob oedolyn sy'n byw mewn llety a drefnir gan yr ysgol, a derbynir canlyniad boddhaol gan yr ysgol a'i gofnodi'n ysgrifenedig cyn bod unrhyw ddisgybl preswyl yn cael ei leoli.
- 38.8** Mae gan yr ysgol naill ai system foddhaol i weithredu gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar staff asiantaeth sydd â chysylltiad cyson â disgyblion preswyl neu nid oes gan y staff hynny fynediad heb ei oruchwyllo at y disgyblion preswyl neu mae ganddi dystiolaeth fod yr asiantaeth wedi gweithredu'r gwiriadau angenrheidiol o fewn y 12 mis diwethaf.
- 38.9** Mae'r ysgol wedi cymryd camau rhesymol ymarferol i weithredu gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yrwyr tacsî a archebir gan yr ysgol i yrru disgyblion preswyl nad yw staff yn cyd-deithio gyda hwy.

¹⁰ Ceir canllawiau ar Dystysgrifau Ymddygiad Da a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn Amddiffyn Plant: Datgelu Cefndir Troseddol y rhai sydd â Mynediad at Blant.

Cyfle i oedolion weld disgyblion preswyl a llety

CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl eu diogelu rhag cysylltiad heb ei oruchwylio yn yr ysgol ag oedolion na fuont yn destun gweithdrefnau gwirio recriwtio cyflawn yr ysgol a goruchwylir pob ymwelydd â'r safle breswyl na chawsant eu gwirio.

SAFON 39

- 39.1 Nid yw'r ysgol yn caniatáu i unrhyw aelod o'r staff(gan gynnwys staff atodol, staff sesiwn neu gontract, a gwirfoddolwyr) weithio gyda disgyblion preswyl oni chafodd yr aelod hwnnw o'r staff ei wirio'n foddhaol gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.**
- 39.2** Cedwir pob oedolyn sy'n ymweld â llety preswyl (e.e. ymwelwyr, personél cyflenwi a chynnal allanol) o dan ddigon o oruchwyliaeth staff i'w rhwystro rhag iddynt gael mynediad sylweddol heb ei oruchwylio at ddisgyblion preswyl neu at eu llety.
- 39.3** Cymerir pob cam ymarferol er mwyn osgoi ymddiried disgyblion preswyl i ofal oedolion sydd "heb eu gwirio" ar gyfer teithio (e.e. mewn tacsï) sy'n golygu rhoi mynediad sylweddol heb ei oruchwylio at ddisgyblion preswyl i oedolion felly.
- 39.4** Ceir cytundeb ysgrifenedig rhwng yr ysgol ac unrhyw oedolyn nad yw'n cael ei gyflogi gan yr ysgol ond sy'n byw yn yr un adeilad â llety preswyl (er enghraifft oedolion sy'n byw ar aelwydydd y staff). Mae hwn yn pennu telerau ac amodau eu llety, canllawiau ar gysylltiadau â disgyblion preswyl, eu cyfrifoldebau dros oruchwylïo'u hymwelwyr, y gall eu llety gael ei derfynu os ceir tystiolaeth eu bod yn anaddas i ddod i gysylltiad yn rheolaidd â phlant, a'r gofyniad bod rhaid iddynt roi gwybod i aelod dynodedig o'r staff nad yw'n perthyn iddynt os cânt eu cyhuddo o unrhyw dramgwydd neu eu collfarnu amdano.

5. Y safle

Llety preswyl

CANLYNIAD

Darperir llety byw boddhaol i ddisgyblion preswyl.

SAFON 40

- 40.1 Dylai tai preswyl (gan gynnwys dorturiau a manau byw) a llety arall a ddarperir i ddisgyblion preswyl gael eu goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n briodol, eu dodrefnu'n addas, a'u cynnal-a'u-cadw'n ddigonol, a dylent fod yn hygyrch i unrhyw ddisgyblion preswyl ag anableddau.**
- 40.2** Mae tai preswyl a llety arall i ddisgyblion preswyl yn cael eu goleuo gan olau naturiol ac artiffisial, eu gwresogi'n ddigonol a'u hawyru'n ddigonol.
- 40.3** Mae tai preswyl a llety arall i ddisgyblion preswyl yn lân.
- 40.4** Mae safon addurno'r tai preswyl a llety arall i ddisgyblion preswyl yn ddigonol.
- 40.5** Mae dodrefnu'r tai preswyl a llety arall i ddisgyblion preswyl yn addas i nifer, oedran ac anghenion y disgyblion preswyl sy'n cael eu lletya, yn gysurus ac mewn cyflwr boddhaol.
- 40.6** Ar y cyfan, nid yw llety'r disgyblion preswyl a'i ddodrefn, ei ffitiadau a'i offer wedi'u torri ac nid oes yna eitemau niferus neu sylweddol sydd angen eu trwsio.
- 40.7** Nid yw llety disgyblion preswyl yn swnllyd yn ddiangen.
- 40.8** Os oes disgyblion preswyl ag anableddau, mae eu llety'n addas neu wedi'i addasu'n briodol iddynt allu mynd i'r holl fannau a'r cyfleusterau y mae arnynt angen eu defnyddio.

Mynediad i'r llety a'i ddiogelwch

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl eu llety byw eu hunain, yn ddiogel rhag ymyrraeth gyhoeddus.

SAFON 41

- 41.1 Mae llety preswyl wedi'i gadw i'w ddefnyddio gan y disgyblion preswyl hynny a ddynodwyd i'w ddefnyddio, ac fe'i diogelir rhag mynediad iddo gan y cyhoedd.**
- 41.2** Dim ond disgyblion preswyl a disgyblion eraill sy'n rhannu darpariaeth stydi/ystafell wely â disgyblion preswyl sy'n cael defnyddio manau cysgu disgyblion preswyl, oni bai bod y disgyblion a ddynodwyd i ddefnyddio'r manau hynny yn rhoi gwahoddiad rhesymol i eraill eu defnyddio.
- 41.3** Dim ond disgyblion preswyl a disgyblion eraill a ddynodwyd i rannu manau byw disgyblion preswyl sy'n cael defnyddio'r ddarpariaeth honno, oni bai bod y disgyblion a ddynodwyd i ddefnyddio'r manau hynny yn rhoi gwahoddiad rhesymol i eraill eu defnyddio.
- 41.4** Mae polisi ysgol clir yn cyfyngu ar fynediad i dir ac adeiladau'r ysgol a mynediad at ddisgyblion preswyl gan bobl y tu allan i'r ysgol, a gweithredir y polisi.
- 41.5** Mae mesurau diogelwch addas a digonol wedi'u sefydlu i rwystro mynediad heb ei awdurdodi gan y cyhoedd i dai preswyl ac adeiladau eraill a ddefnyddir gan ddisgyblion preswyl (e.e. pan fo'n gymwys, cloeon diogelwch, ataliadau ar ffenestri hawdd torri drwyddynt, defnyddio larymau tresmaswyr).
- 41.6** Pan fydd dichon gwneud hynny wrth ystyried natur safle'r ysgol, cymerir mesurau rhesymol i rwystro neu atal y cyhoedd rhag cael mynediad sydd heb ei awdurdodi i diroedd yr ysgol.
- 41.7** Nid yw unrhyw ddefnydd o offer gwyliadwriaeth (e.e. camerâu teledu cylch cyfyng) neu batrolio diogelwch yn adeiladau neu diroedd yr ysgol yn ymyrryd â phreifatrwydd rhesymol y disgyblion preswyl.
- 41.8** Nid yw unrhyw ddefnydd cyhoeddus o gyfleusterau'r ysgol yn sefydlu mynediad sylweddol heb ei oruchwylio gan aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys aelodau o grwpiau a drefnwyd sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol) at ddisgyblion preswyl, neu fynediad i lety disgyblion preswyl tra bod disgyblion preswyl yn lletya yno.

Ystafelloedd cysgu

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl ystafelloedd cysgu boddhaol.

SAFON 42

- 42.1 Mae'r ystafelloedd cysgu wedi'u dodrefnu'n addas ac o faint digonol ar gyfer nifer, anghenion ac oedran y disgyblion preswyl a letyir, gyda gwahanu priodol rhwng genderau, grwpiau oedran ac oddi wrth lety ar gyfer oedolion.**
- 42.2** Mae'r gwelyau o faint digonol ar gyfer oedran y disgyblion preswyl, o wneuthuriad sad a diogel ac mewn cyflwr da, gyda matresi glân o ddyfnder rhesymol ac mewn cyflwr da.
- 42.3** Mae'r dillad gwely'n lân ac yn addas i oedran y disgyblion preswyl, ac yn ddigon cynnes yn y gaeaf.
- 42.4** Nid oes gormod o amrywiaeth yn safon y gwelyau neu'r dillad gwely mewn unrhyw un o'r ystafelloedd gwely.
- 42.5** Eithriad yn unig yw defnyddio gwely bync (gwelyau sy'n gyfan un uwchben y llall, fel y gwahaniaethir hwy oddi wrth steil gwelyau "caban" ag arwynebedd desgiau neu le i storio odanynt) ar gyfer disgyblion preswyl y tu hwnt i Flwyddyn 8, ac nid yw defnyddio gwelyau bync i unrhyw oedran yn arwain at orlenwi ystafell wely neu le astudio.
- 42.6** Mae digon o le o amgylch y gwelyau i ddisgyblion preswyl newid yn gyffyrddus, a digon o uchder uwchben (yn arbennig uwchben gwelyau bync).
- 42.7** Mae'r dorturiau o faint digonol ac heb eu gorlenwi¹¹.
- 42.8** Mae ffenestr gan bob dortur, ystafell wely sengl a chuddygl cysgu unigol.
- 42.9** Mae'r manau cysgu naill ai wedi'u carpedu neu mae ganddynt orchudd llawr addas arall.
- 42.10** Mae digon o le storio naill ai yn y manau cysgu neu'n gyfagos iddynt ar gyfer dillad ac eiddo disgyblion preswyl.

¹¹ Os oes anghytundeb a yw ystafell yn rhy fach neu wedi'i gorlenwi, ac wrth gynllunio dortur, dylid dibynnu ar ofynion lle Rheoliadau Tir ac Adeiladau Ysgol 1999. Maent yn nodi isafswm gofynion arwynebedd llawr defnyddiadwy: ystafelloedd / dorturiau i ddau ddisgybl preswyl neu fwy, 1.6 m² plws 4.2 m² y disgybl preswyl; cuddyglaau cysgu unigol mewn ystafell fwy, 5 m²; ystafelloedd gwely unigol, 6 m². Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i welyau fod o leiaf 900 mm oddi wrth ei gilydd mewn ystafelloedd / dorturiau. Mae "arwynebedd llawr defnyddiadwy" yn cynnwys arwynebedd llawr yr ystafell wely a lenwir gan ddodrefn ystafell neu'r tu ôl i ddrysau pan agorir hwy, ond nid yr arwynebeddau nas dodrefnwyd o dan nenfydau isel neu ar oleddf lle nad yw disgyblion preswyl yn gallu sefyll yn syth. Sylwer bod ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol (ond nid categorïau eraill o ysgol) o dan ymrwymiad cyfreithiol i fodloni'r Rheoliadau Tir ac Ysgolion hyn yn llawn.

- 42.11** Os dymunant, caiff disgyblion preswyl bersonoli rhan o'u dortur â phosteri addas ac eitemau personol.
- 42.12** Mae ystafelloedd cysgu disgyblion preswyl wedi'u gwahanu'n llwyr o ran gender ac wedi'u gwahanu'n briodol o ran grŵp oedran.
- 42.13** Mae ystafelloedd cysgu'r staff, teulu'r staff ac ymwelwyr wedi'u gwahanu'n oddi wrth ystafelloedd cysgu'r disgyblion preswyl.
- 42.14** Caiff ceisiadau gan ddisgyblion preswyl i newid gwely neu ddortur am resymau da eu hystyried yn iawn.

Darpariaeth astudio

CANLYNIAD

Mae darpariaeth foddhaol gan ddisgyblion preswyl i astudio.

SAFON 43

43.1 Mae cyfleusterau addas ar gael i ddisgyblion preswyl ar gyfer astudio wedi'i drefnu ac ar gyfer astudio preifat.

43.2 Mae darpariaeth addas, wedi'i goleuo'n addas ac yn resymol dawel ar gyfer gwaith paratoi wedi'i drefnu ac astudiaeth breifat disgyblion preswyl, naill ai yn ymyl dorturiau neu ynddynt, yn rhywle arall yn y tai preswyl, neu drwy ddefnyddio ystafelloedd cyfagos ym mhrif safle'r ysgol ei hun.

Darpariaeth toiled ac ymolchi

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl gyfleusterau toiled a chyfleusterau ymolchi digonol ac maent yn ddigonol o ran preifatrwydd.

SAFON 44

44.1 Mae cyfleusterau toiled a chyfleusterau ymolchi digonol ac maent ar gael yn hawdd i ddisgyblion preswyl, gyda phreifatrwydd priodol.

44.2 Mae gan bob tŷ preswyl un WC o leiaf ar gyfer pob pum disgybl preswyl (yn nhai'r bechgyn, gellir darparu wrinalau yn lle dau draean o'r nifer gofynnol o WCs ar y mwyaf).

44.3 Mae WCs:

- wedi'u dosbarthu o fewn y llety preswyl fel y gellir mynd iddynt yn hawdd o'r manau cysgu a'r manau byw
- mewn ystafelloedd unigol neu mewn cuddyglau ar wahân, gyda pharwydydd a drysau heb fylchau mawr uwch eu pen neu odanynt i fod yn agored i ymyrraeth â phreifatrwydd
- yn gweithio'n iawn, gyda phapur (a chyfleusterau gwaredu tyweli misglwyf a thamponau ar gyfer merched y mae eu hangen arnynt)
- wedi'u ffitio â drysau ystafell neu guddygl gyda chlo sy'n gweithio'n iawn
- yn lân ac wedi'u hawyru'n ddigonol.

44.4 Mae basnau ymolchi, gyda sebon, dŵr poeth a modd i sychu dwylo'n gyfagos i bob WC ac wrinal.

44.5 Mae gan bob tŷ preswyl o leiaf un basn ymolchi ar gyfer pob tri disgybl preswyl.

44.6 Mae gan bob tŷ preswyl o leiaf un gawod neu faddon ar gyfer pob 10 disgybl preswyl, ac mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cawodydd, ac:

- mae'r cawodydd a'r baddonau wedi'u dosbarthu o fewn y llety preswyl fel y gellir mynd iddynt yn hawdd o'r manau cysgu a'r manau byw
- mae pob cawod a baddon a ddefnyddir ar gyfer ymolchi personol yn y tai preswyl wedi'u gwahanu i ystafelloedd neu cuddyglau unigol, neu os ydynt yn yr un man gellir eu gwahanu'n unigol gan lenni os yw'r disgyblion preswyl yn dymuno hynny
- mae cyfleusterau cawodydd a baddonau yn lân ac wedi'u hawyru'n ddigonol
- mae cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer i'r cawodydd a'r baddonau.

- 44.7** Mae drysau ystafelloedd ymolchi unigol mewn ysgolion sy'n lletya disgyblion preswyl anabl, os yw hynny'n ymarferol, yn agor at allan, ac mae ganddynt gloeon sy'n agor o'r tu allan mewn argyfwng.
- 44.8** Nid yw cyfleusterau toiled mewn tai preswylion cael eu rhannu'n amhriodol gan ddisgyblion preswyl gwahanol iawn eu hoedran (e.e. y disgyblion preswyl hynaf a'r disgyblion preswyl ieuengaf), nid yw cyfleusterau cawod a baddon yn cael eu rhannu ar yr un pryd gan ddisgyblion preswyl gwahanol iawn eu hoedran, ac nid yw cyfleusterau toiled ac ymolchi'n cael eu rhannu gan ddisgyblion preswyl o'r ddau gender¹².
- 44.9** Mae gan staff ac oedolion eraill (gan gynnwys ymwelwyr) gyfleusterau toiled a chawod neu faddon ar wahân, ac nid ydynt yn rhannu cyfleusterau'r disgyblion preswyl.

¹² Nid yw'r safon hon yn atal yr ystod oedran llawn sydd yn cymryd rhan yn yr un gemau tîm rhag rhannu'r un ddarpariaeth ar gyfer newid a chael cawod mewn gweithgareddau chwaraeon.

Cyfleusterau newid

CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl ddarpariaeth foddhaol ar gyfer newid yn ystod y

SAFON 45

45.1 Darperir cyfleusterau addas ar gyfer newid yn ystod y dydd.

45.2 Mae gan ddisgyblion preswyl nad ydynt yn defnyddio'u hystafelloedd gwely i newid gyfle i fynd i gyfleusterau newid yn ystod y dydd (e.e. newid ar gyfer chwaraeon), sy'n ddigonol o ran maint a phreifatrwydd, gyda chyfleusterau ar wahân i bob gender, nad ydynt yn cael eu rhannu ar yr un pryd â disgyblion gwahanol iawn eu hoedran ac nad ydynt yn cael eu rhannu â staff, oedolion neu ymwelwyr heblaw ymwelwyr o oedran tebyg i'r disgyblion preswyl eu hunain¹³.

45.3 Mae gan y cyfleusterau newid a ddefnyddir gan ddisgyblion preswyl ddarpariaeth doiledau ac ymolchi preifat addas cyfagos.

¹³ Nid yw'r safon hon yn atal yr ystod oedran llawn sydd yn cymryd rhan yn yr un gemau tîm rhag rhannu'r un ddarpariaeth ar gyfer newid a chael cawod mewn gweithgareddau chwaraeon.

Mannau adloniant

Y CANLYNIAD

Mae gan ddisgyblion preswyl ystod o fannau adloniant diogel.

SAFON 46

46.1 Mae ystod a dewis o fannau adloniant diogel o fewn cyrraedd disgyblion preswyl, y tu mewn a'r tu allan.

46.2 Mae ystod a dewis o ystafelloedd cyffredin a manau adloniant eraill ar gael i ddisgyblion preswyl y tu allan i amser ysgol, gyda'r nosau ac ar benwythnosau, lle gellir gwahanu'r genderau, y grwpiau oedran a gweithgareddau fel y dymunau'r disgyblion preswyl, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ymlacio'n dawel a gweithgareddau tawel.

46.3 Mae ystod a dewis o fannau o fewn tiroedd yr ysgol ar gael i ddisgyblion preswyl ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar adegau addas.

46.4 Mae manau diogel yn yr ysgol y gall disgyblion preswyl fod ar eu pen eu hun os dymunant.

46.5 Mae cyfle rhesymol gan ddisgyblion preswyl i fynd i'r tai preswyl y tu allan i amser ysgol.

46.6 Mae unrhyw gyfle gan ddisgyblion preswyl i fynd i lety staff yn cael ei oruchwyllo'n briodol ac nid yw'n golygu ffafriaeth amhriodol na chysylltiau amhriodol un-wrth-un rhwng staff a disgyblion preswyl.

Peryglon i ddiogelwch ac asesu risg

Y CANLYNIAD

Diogelir disgyblion preswyl rhag peryglon i'w diogelwch.

SAFON 47

- 47.1 Dylai'r mannau tu mewn a'r mannau tu allan a ddefnyddir gan ddisgyblion preswyl neu sydd ar gael iddynt, fod yn rhydd rhag peryglon i ddiogelwch y gellir eu hosgoi'n rhesymol.**
- 47.2** Mae mannau cysgu, mannau byw a mannau adloniant y tu mewn ac ar diroedd yr ysgol, yn rhydd rhag peryglon sylweddol i ddiogelwch disgyblion preswyl (e.e. fflecsys sydd yn llusgo, socedau wedi'u gorlwytho, gwresogyddion heb gardiau arnynt).
- 47.3** Mae ffenestri y mae disgyblion preswyl yn gallu mynd atynt sy'n uwch na'r llawr daear ac sy'n creu risg i ddiogelwch yn cael eu ffitio â chyfyngiadau agor addas neu fesurau diogelwch amgen.
- 47.4** Mae ffenestri lle mae risg sylweddol o daro yn eu herbyn naill ai wedi'u gwneud o wydr diogelwch (o fath sy'n bodloni'r Safon Brydeinig berthnasol), neu wedi'u diogelu'n addas fel arall.
- 47.5** Nid oes peryglon sylweddol i ddiogelwch disgyblion preswyl mewn mannau adloniant y tu mewn na'r tu allan a ddefnyddir gan ddisgyblion preswyl, nac ar lwybrau a ddefnyddir yn rheolaidd gan ddisgyblion preswyl rhwng adeiladau neu rhwng rhannau o safle'r ysgol (e.e. rhwng y tai preswyl i'r ystafelloedd addysgu).
- 47.6** Mae gan yr ysgol bolisi, a weithredir mewn gwirionedd, ar gyfer rheoli neu oruchwylio'r defnydd o fannau risg uchel o fewn adeiladau a thiroedd yr ysgol a'r mynediad a geir iddynt (e.e. ar gyfer defnydd addysgol neu adloniadol y tu allan i amser y dosbarth, gan gynnwys mannau megis gymnasia, labordai, gweithdai, pyllau nofio, a mannau peryglus y tu allan megis mannau coediog, mannau storio offer cynnal-a-chadw, a meysydd parcio ceir mynych eu defnydd a mannau troi).
- 47.7** Mae'r disgyblion preswyl yn gwybod pa fannau a gweithgareddau sydd o dan waharddiad.
- 47.8** Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a diogelwch boddhaol, sydd ar gael i'r holl staff.
- 47.9** Mae gan yr ysgol system effeithiol o asesu risg, gyda chofnodion ysgrifenedig (gan gynnwys ymgynghori â disgyblion preswyl) i nodi'r risg i ddisgyblion preswyl a'i leihau rhag peryglon cynhenid yn adeiladau'r ysgol, yng ngweithgareddau'r ysgol neu ar diroedd yr ysgol, gan gynnwys peryglon y gall disgyblion preswyl fynd iddynt heb ganiatâd (e.e. ffyrdd, glannau afon, toeau fflat, offer hobiau, arfau tân, deunyddiau glanhau, ystafelloedd peiriannau ac offer).

Llety ar gyfer disgyblion sâl

Y CANLYNIAD

Caiff disgyblion preswyl eu lletya'n addas pan fyddant yn sâl.

SAFON 48

48.1 Dylai fod llety addas ar wahân ar gael i ofalu am ddisgyblion preswyl sy'n sâl.

48.2 Gellir gofalu am ddisgyblion preswyl sy'n sâl yn yr ysgol yn foddhaol ac ar wahân i ddisgyblion preswyl eraill lle bo angen, o fewn llety preswyl, ystafell i gleifion neu lety sanatoriwm.

48.3 Mae gan ysgolion sydd â 41 neu fwy o ddisgyblion preswyl ystafell neu ystafelloedd dynodedig i ynysu'r disgyblion preswyl sâl pan fydd angen, gyda'i thoiled a'i chyfleusterau ymolchi ei hun gerllaw a digon ohonynt ar gyfer y nifer o welyau a ddarperir yn unol â'r cymarebau yn Safon 44.

48.4 Mae unrhyw ystafell i gleifion neu ystafell ynysu i ddisgyblion preswyl sâl o faint digonol i'w diben, gyda lle digonol rhwng y gwelyau¹⁴.

14 Os oes anghytundeb a yw'r sanatoriwm neu'r ystafell i gleifion yn bodloni'r meini prawf hyn, dylid dibynnu ar y gofynion lle a nodir yn Rheoliadau Tir ac Adeiladau Ysgolion 1999. Mae'r rhain yn gosod arwynebedd llawr defnyddiadwy gofynnol o 7.4m² am bob gwely yn y sanatoria neu'r ystafelloedd i gleifion, gyda gwelyau o leiaf 1.8m rhwng y gwelyau. Sylwer bod dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol i fodloni'r safonau lle hyn yn llawn.

Golchi dillad

Y CANLYNIAD

Mae dillad a dillad gwely disgyblion preswyl yn cael eu golchi'n ddigonol.

SAFON 49

49.1 Mae darpariaeth olchi dillad digonol ar gyfer dillad a dillad gwely disgyblion preswyl.

49.2 Caiff dillad gwely a dillad disgyblion preswyl (heblaw am unrhyw ddillad a olchir gan y disgyblion preswyl eu hunain) eu golchi'n rheolaidd ac yn aml gan yr ysgol.

49.3 Caiff dillad disgyblion preswyl eu storio'n foddhaol a'u rhoi i'r disgyblion preswyl priodol ar ôl ei golchi.

Deunyddiau ysgrifennu ac eitemau personol

CANLYNIAD

Gall disgyblion preswyl gael deunyddiau personol tra byddant yn cael eu lletya yn yr ysgol.

SAFON 50

50.1 Gall disgyblion preswyl gael mân eitemau personol angenrheidiol a deunyddiau ysgrifennu tra byddant yn cael eu lletya yn yr ysgol.

50.2 Gellir prynu mân bethau ymolchi personol a deunydd ysgrifennu yn siop yr ysgol, mewn siop gyfagos os yw'n briodol, neu maent ar gael fel arall yn yr ysgol.

Tŷ llety

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles disgyblion preswyl a roir mewn tai llety.

SAFON 51

51.1 Mae unrhyw dŷ llety a drefnir gan yr ysgol i letya disgyblion yn darparu llety a goruchwyliaeth foddhaol, yn cael eu harchwilio gan yr ysgol cyn iddynt gael eu defnyddio, ac yn cael eu monitro gan yr ysgol pan ddefnyddir hwy¹⁵.

51.2 Caiff ei ddatgan yn glir i rieni os yw unrhyw dŷ llety sy'n lletya disgyblion wedi'i drefnu gan yr ysgol neu gan y rhieni eu hunain.

51.3 Mae unrhyw dŷ llety a ddarperir neu a drefnir gan yr ysgol yn darparu:

- naill ai ystafell wely sengl neu ystafell wely a rennir ag un disgybl arall o oedran tebyg ac o'r un gender ar gyfer pob disgybl
- ystafell wely na chaiff ei rhannu ag unrhyw aelod o'r teulu "bugeiliol"
- gwely, dillad gwely a lle storio addas
- goleuo a gwresogi digonol
- y cyfle i fynd i doiled, basn ymolchi a chyfleusterau cawod neu faddon digonol ac arferol, mewn preifatrwydd
- prydau bwyd digonol, addas a rheolaidd, sy'n cael eu darparu mewn amgylchiadau hylan, ar gyfer y prydau bwyd na chânt eu bwyta yn yr ysgol
- ffôn sy'n galluogi disgyblion i dderbyn a gwneud galwadau ar bob adeg resymol, gyda thaliadau "yn ôl eu cost" yn unig am y galwadau a wneir
- y cyfle i ddisgyblion fynd a dod i'r llety bob adeg resymol, heb gael eu "cloi allan" ar unrhyw adeg y byddai'r ysgol yn disgwyl iddynt fod yn eu tŷ llety
- darpariaeth ddigonol i olchi dillad a dillad gwely'r disgyblion, naill ai gan y "teulu bugeiliol" neu gan y disgybl, oni wneir hynny yn yr ysgol
- lle digonol, preifat i eistedd a lle digonol, preifat i astudio ar gyfer pob disgybl, naill ai mewn ystafell fyw a chysgu neu mewn ystafell ar gyfer y disgyblion ar wahân i ystafelloedd y teulu bugeiliol eu hunain
- llety sy'n rhydd rhag peryglon iechyd a pheryglon diogelwch sylweddol amlwg (e.e. ffitiadau neu offer trydanol peryglus, risgiau tân)

¹⁵ Tai llety wedi'u trefnu gan yr ysgol yw'r rheiny a ddarperir neu a drefnir ar gyfer disgybl o dan 18 oed gan yr ysgol, gan unrhyw aelod o'i staff fel rhan o'u gwaith dros yr ysgol, neu gan asiant neu gorff yn gweithredu dros yr ysgol, yn hytrach na chan riant y disgybl neu asiant neu gorff heblaw'r ysgol yn gweithredu ar ran y rhieni. Maent yn cynnwys defnydd o dai llety yn ystod y tymor yn hytrach na llety ar-y-safle, tŷ llety gwyliau a drefnir dros y disgybl gan yr ysgol, disgyblion yn lojo gydag aelodau o'r staff yn ystod y gwyliau, a llety yn ystod amser tymor neu wyliau gyda gwarcheidwaid addysgol wedi'u trefnu gan yr ysgol.

- lefel foddhaol o hylendid cyffredinol, addurno a glendid
 - oedolyn cyfrifol yn bresennol yn y tŷ llety yn ystod y nos pan fydd disgybl neu ddisgyblion yn cysgu yno.
- 51.4** Ar gyfer tŷ llety a ddarperir gan yr ysgol neu a drefnir ganddi, gall yr ysgol ddangos bod yr aelodau o'r teulu bugeiliol sy'n oedolion wedi'u gwirio drwy wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar y lefel uchaf megis ar gyfer staff, gyda chanlyniad boddhaol y gwyddys amdano cyn bod unrhyw ddisgybl yn cael ei leoli.
- 51.5** Mae gan yr ysgol gytundeb ysgrifenedig boddhaol â phob oedolyn sy'n darparu tŷ llety i ddisgyblion ac ar ei rhan.
- 51.6** Mae'r ysgol yn darparu canllawiau ysgrifenedig boddhaol i deuluoedd bugeiliol sy'n lletya disgyblion ar ran yr ysgol, ac mae'n cynnwys polisi ac arferion yr ysgol ar lojo disgyblion.
- 51.7** Mae'r ysgol yn ymweld â phob tŷ llety arfaethedig, ac yn cyfweld â'r oedolyn a fydd yn gyfrifol am lety'r disgybl neu'r disgyblion ym mhob tŷ llety, yn cymryd tystlythyrau, ac mae wedi cofnodi asesiad boddhaol, cyn lleoli unrhyw ddisgybl yno.
- 51.8** O leiaf unwaith bob tymor ysgol mae aelod o'r staff yn trafod eu tŷ llety ar wahân gyda phob disgybl a letyir gan neu ar ran yr ysgol mewn tŷ llety, gan gofnodi asesiad y disgybl yn ysgrifenedig a chymryd camau ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gŵynion.
- 51.9** O leiaf unwaith bob blwyddyn ysgol mae aelod o'r staff yn ymweld â'r holl dai llety sy'n lletya disgyblion er mwyn archwilio a yw'r llety yn parhau i fod yn addas ac er mwyn adolygu'r ddarpariaeth gyda'r oedolyn sy'n gyfrifol am y disgybl neu'r disgyblion ym mhob tŷ llety, gan gofnodi asesiadau yn ysgrifenedig a chymryd camau ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gŵynion a nodwyd.
- 51.10** Mae oedolion sy'n darparu tŷ llety i ddisgyblion yn glir ynghylch eu cyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles disgyblion ac ynghylch gofynion yr ysgol oddi wrthynt, y defnydd o unrhyw gosbau neu sancsiynau, a'u hymateb i honiadau neu amheuon o gamdriniaeth ac i gŵynion.
- 51.11** Mae trefniadau boddhaol ar gael i deuluoedd bugeiliol geisio a chael cyngor ar broblemau, gan gynnwys trefniant boddhaol ar gyfer cysylltu gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Llety oddi ar y safle a chyfnwidiadau

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles disgyblion preswyl pan letyir hwy i ffwrdd o safle'r ysgol ar ymweliadau am gyfnod byr.

SAFON 52

- 52.1 Mae unrhyw lety cyfnod-byr oddi ar y safle a drefnir gan yr ysgol ar gyfer unrhyw ddisgyblion preswyl ganddi yn darparu llety a goruchwyliaeth foddhaol, yn cael ei archwilio gan yr ysgol cyn ei ddefnyddio ac yn cael ei fonitro gan yr ysgol pan ddefnyddir ef.**
- 52.2** Mae llety disgyblion preswyl yn foddhaol mewn unrhyw ganolfannau astudio maes, mewn llety tramor, llety ym mherchenogaeth yr ysgol i ffwrdd o safle'r ysgol, a phan fydd disgyblion preswyl yn aros i ffwrdd o'r ysgol ar gynlluniau cyfnewid.
- 52.3** Pan fydd disgyblion preswyl yn aros mewn llety i ffwrdd o'r ysgol (heblaw ar aelwydydd preifat mewn cynlluniau cyfnewid neu ar deithiau chwaraeon, perfformiadau neu deithiau eraill), mae staff ysgol yn mynd gyda hwy ar bob adeg resymol neu maent o dan oruchwyliaeth hebryngwyr neu maent o dan oruchwyliaeth staff sefydliad chwaraeon, sefydliad perfformio neu sefydliad teithio arall y mae'r ysgol yn eu defnyddio i letya neu i oruchwylio'i disgyblion ar ei rhan.
- 52.4** Mae trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth staff dros ddisgyblion preswyl a letyir i ffwrdd o'r ysgol ac ar gyfer hebrwng y disgyblion preswyl yn lleihau, yn foddhaol, gyfle oedolion "heb eu gwirio" i gael mynediad heb oruchwyliaeth at ddisgyblion preswyl.
- 52.5** Pan fydd disgyblion preswyl yn aros i ffwrdd o'r ysgol ar gynlluniau cyfnewid, mae yna drefniadau boddhaol i ddisgyblion preswyl gysylltu â naill ai aelod o staff eu hysgol eu hunain sy'n aros yn lleol neu aelod sydd wedi'i enwi o staff yr ysgol y maent yn ymweld â hi. Mae gan y staff gysylltiad dyddiol â'r disgyblion preswyl, ac mae'r staff yn rheolaidd yn gofyn i ddisgyblion preswyl yn ystod eu harhosiad os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch eu llety neu eu gofal.
- 52.6** Gall yr ysgol dangos ei bod yn cymryd camau rhesymol, priodol ac effeithiol i ddiogelu ac i hybu lles y disgyblion tra byddant yn cael eu lletya gan deuluoedd ar gynlluniau cyfnewid neu ar deithiau chwaraeon neu berfformiadau neu deithiau eraill, o gofio cyfrifoldeb parhaus yr ysgol dros eu lles yn y llety a drefnir gan yr ysgol gyda theuluoedd neu gan sefydliad arall ar ran yr ysgol.
- 52.7** Mae'r ysgol wedi asesu addasrwydd unrhyw lety i'w ddefnyddio gan ddisgyblion preswyl i ffwrdd o safle'r ysgol cyn i ddisgyblion preswyl gael eu lletya yno (heblaw llety cyfnewid mewn tai preifat, neu lety y mae'r ysgol yn gwybod eisoes ei fod yn foddhaol), gan gynnwys ymweliad â'r llety pan fydd hyn yn ymarferol, a chofnodi ei hasesiad yn ysgrifenedig.

52.8 Mae llety cyfnod byr (gan gynnwys llety ar gyfer teithiau maes, gweithgareddau ac ymarferion a gweryllia) sy'n cael ei ddarparu neu'i drefnu i ddisgyblion preswyl i ffrwd o'r ysgol yn darparu:

- gwely a dillad gwely digonol ac addas i bob disgybl preswyl (neu'r hyn sy'n cyfateb wrth wersylla)
- darpariaeth gysgu ar wahân i'r ddau gender lle bynnag y bo'n ymarferol
- cyfle digonol i ddefnyddio chyfleusterau toiledau ac ymolchi (gyda chyfleusterau ar wahân i'r ddau gender os yw'n bosibl) sy'n briodol i natur y gweithgaredd
- darpariaeth reolaidd o fwyd a diod priodol a digonol, wedi'u cadw a'u paratoi o dan amodau hylendid sy'n ddigonol i leihau'r risg o glefyd
- y gallu i gysylltu â gwasanaethau meddygol, a darpariaeth i ddychwelyd i'r ysgol neu adref os bydd damwain neu salwch
- goruchwyliaeth foddhaol dros ddisgyblion preswyl gan oedolion y gellir cysylltu â hwy ac sy'n gymwys i oruchwylia'r gweithgareddau o dan sylw, gyda staff wrth gefn i ymdrin ag argyfyngau
- ar gyfer gweithgareddau risg uchel, hyfforddwyr neu oruchwylwyr â chymhwyster priodol gan gorff neu gymdeithas lywodraethu genedlaethol berthnasol
- offer priodol, offer a chyfleusterau diogelwch, a briff neu hyfforddiant ar gyfer unrhyw weithgareddau risg uchel yr ymgymmerir â hwy
- dillad digonol, sy'n addas ar gyfer y gweithgareddau yr ymgymmerir â hwy, ac yn ddigonol i sicrhau digon o gynhesrwydd
- addasu'r gweithgareddau ar gyfer anghenion arbennig unrhyw ddisgyblion preswyl unigol (e.e. anabled, asma, enwresis, anghenion deiet, alergau)
- cadw yn ddiogel a darparu yn ddiogel meddyginiaeth i'w roi i unrhyw ddisgybl preswyl, gan staff neu gan y disgybl preswyl fel y bo'n briodol.

Rhestr o Bolisiau a Dogfennau Dylai'r polisiau a'r dogfennau canlynol gael eu cadw gan yr ysgol:

Llawlyfr Staff / canllawiau i'r staff preswyl

[gall y ddogfen hon gynnwys llawer o'r dogfennau polisi penodol canlynol]

Datganiad o egwyddorion ac arferion preswyl i'r ysgol

Mynd i'r afael â bwlio

Amddiffyn plant

Y gofyniad bod staff yn adrodd am bryderon neu honiadau o risg niwed i ddisgyblion

Disgyblu (gan gynnwys cosbau, gwobrwyon ac ataliadau)

Y weithdrefn gŵyno

Galluogi disgyblion i ddweud eu problemau neu eu pryderon wrth unrhyw aelod o'r staff

Darpariaeth i ddisgyblion ag unrhyw anghenion arbenning o ran crefydd, deiet, iaith neu ddiwylliant

Ymateb i gamddefnyddio alcohol, ysmygu a chamddefnyddio sylweddau

Cynlluniau ar gyfer argyfyngau y gellir eu rhagweld

Rhaglen sefydlu, hyfforddi a datblygu staff

Gweithdrefn ddisgyblu staff

Goruchwyllo staff atodol, staff contract a staff "heb eu gwirio"

Dyletswyddau, pwerau a chyfrifoldebau swyddogion

Protocol darparu meddyginiaeth ddi-brescripsiwn i ddisgyblion preswyl

Gwybodaeth ysgrifenedig allweddol i ddisgyblion preswyl newydd

Disgrifiadau swydd i staff â dyletswyddau preswyl

Diogelwch a goruchwyliaeth ar deithiau ysgol

Mynediad i safle'r ysgol gan bobl y tu allan i'r ysgol

Mynediad disgyblion i fannau risg yn adeiladau ac ar dir yr ysgol

Polisi iechyd a diogelwch

Polisi ar gyfle'r disgyblion i gysylltu â pherson sy'n annibynnol ar grŵp staff yr ysgol

Pan fo'n gymwys:

Eglurhad os yw gwarcheidwaid addysgol neu dŷ llety wedi'u trefnu gan yr ysgol neu gan y rhieni.

Cytundeb gydag unrhyw oedolyn sy'n darparu tŷ llety i ddisgyblion.

Canllawiau ar les i deuluoedd bugeiliol sy'n lletya disgyblion ar ran yr ysgol.

Cofnodion

Mae'n ofynnol cael y cofnodion canlynol:

Honiadau neu amheuron ynghylch amddiffyn plant
Y prif gosbau
Defnyddio atal corfforol
Cŵynion difrifol
Cofnodion disgyblion preswyl unigol (yn cynnwys gwybodaeth bersonol, iechyd a lles)
Rhoi meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf
Afiechydon sylweddol
Damweiniau ac anafiadau sylweddol
Caniatâd rhiant i gael triniaeth feddygol a deintyddol, cymorth cyntaf a meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn
Asesiadau risg (ar gyfer gweithgareddau risg a safleoedd/tiroedd)
Cofnodion a gwiriadau recriwtio staff (gan gynnwys gwiriadau ar eraill y rhoddir cyfle sylweddol iddynt fynd at y disgyblion preswyl neu i'r llety preswyl)
Rota ddyletswydd staff
Profion a driliau rhagofalon tân
Asesiadau risg o dan Reoliadau Rhagofalon Tân (y Gweithle)
Bwydlenni

Pan fo'n gymwys:

Arian poced ac unrhyw eiddo personol y mae'r staff yn gofalu amdano
Cynlluniau gofal i ddisgyblion preswyl ag anghenion arbennig
Caniatâd rhiant ar gyfer gweithgareddau risg uchel
Gwiriadau ar drwyddedau Canolfannau Gweithgareddau Antur perthnasol
Asesiadau o dai llety a drefnir gan yr ysgol
Asesiad o lety oddi ar y safle a ddefnyddir gan yr ysgol

Rhestr o Bynciau i'w Monitro gan yr Ysgol

Nodir y pynciau a'r cofnodion canlynol mewn perthynas â disgyblion preswyl yn y Safonau Preswyl Cenedlaethol fel rhai sydd i'w monitro'n rheolaidd gan y Pennaeth neu aelod hŷn o'r staff, er mwyn nodi angen posibl am adolygiad neu newid yn y gweithrediad lles perthnasol:

Cofnodion o gŵynion a'u canlyniadau

Cofnodion o'r prif gosbau

Cofnodion o unrhyw ddefnydd o atal corfforol

Rhoi meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf

Cofnodion o ddamweiniau sylweddol

Cofnodion o'r holl asesiadau risg a wnaed

Y camau a gymerwyd wrth ymateb i'r holl asesiadau risg a wnaed.

(Os yw'n gymwys) addaswydd unrhyw drefniadau gwarcheidiol a wnaed.

Geirfa

Lluniwyd yr eirfa hon i helpu'r darllenydd yn gyffredinol i ddehongli'r safonau. Nid yw'r diffiniadau a roddir yn effeithio ar yr ystyr a all fod i derm o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Amddiffyn Plant

Cymryd camau rhesymol i leihau'r perygl o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, esgeulustra neu niwed sylweddol i blentyn, galluogi plant a staff i leisio pryderon ynghylch camdriniaeth wirioneddol neu bosibl neu niwed sylweddol, ac ymateb yn briodol i honiadau, digwyddiadau neu amheuon o gamdriniaeth neu niwed sylweddol i blentyn – yn yr ysgol, yn y cartref, neu y tu allan i'r ysgol neu'r cartref.

Amser Rhydd

Amser y tu allan i amser addysgu, cyfnodau paratoi ac amser gweithgareddau sydd wedi'u trefnu, pan fydd disgyblion yn gallu penderfynu dros eu hunain sut i'w dreulio (o fewn rheswm), naill ai drwy ddewis rhwng y gweithgareddau dewisol sydd ar gael, neu drwy ddewis cymdeithasu neu dreulio amser ar eu pennau eu hunain.

Asesiad Risg

Y broses o nodi peryglon i ddiogelwch neu les plant, gan amcangyfrif pa mor ddifrifol â pha mor debygol ydynt, a nodi mesurau rhesymol i leihau peryglon diangen cymaint ag sydd yn bosibl, ac yna eu cofnodi'n ysgrifenedig fel sail ar gyfer cynllun gweithredu a gwneud penderfyniadau i leihau peryglon diangen i blant.

Atal

Defnyddio dull ymyrryd neu rym corfforol rhesymol i atal unrhyw anaf neu niwed difrifol i eiddo.

Bwlio

Sylwch fod y safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion lunio eu diffiniad eu hunain o fwlio, a all adlewyrchu materion ynglŷn â'r ysgol unigol neu ei disgyblion. Yn gyffredinol, byddai bwlio yn y cyd-destun hwn yn cynnwys achosi poen, gofid, pryder, gwaradwydd neu ddieithriad cymdeithasol yn fwriadol neu mewn ffordd gydnabyddedig i un disgybl gan un neu ragor o ddisgyblion eraill, drwy ddulliau corfforol neu lafar, neu drwy niweidio eiddo neu ei waredu.

Corff Llywodraethu Cenedlaethol (ar gyfer gweithgaredd)

Y corff neu'r gymdeithas genedlaethol neu, os oes mwy nag un, y corff neu'r gymdeithas arweiniol gydnabyddedig, sy'n pennu cymwysterau ar gyfer hyfforddi a goruchwyllo chwaraeon neu weithgareddau, ynghyd â chanllawiau ar eu hymarfer yn ddiogel.

Cyfnewid

Trefniant ymweld rhwng dwy ysgol lle mae disgyblion yn aros gyda theuluoedd disgyblion o'r ysgol arall pan fyddant yn ymweld â'r ysgol honno.

Cynllun Amddiffyn Plant

Cynllun sy'n nodi strategaeth a chamau sydd i'w cymryd gan (o bosibl) nifer o asiantaethau ac unigolion i amddiffyn plentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol. Mae'n debyg o ddilyn ymholiad amddiffyn plant.

Cynllun Lles

Cytundeb â rhiant ar sut y bydd yr ysgol yn bodloni anghenion lles arbennig disgybl preswyl neu'n rheoli ei anawsterau emosiynol neu ymddygiadol.

Cysgu i Mewn

Staff sy'n gyfrifol am ddisgyblion preswyl mewn tŷ preswyl yn ystod y nos, ond sy'n cysgu yn y tŷ ac sydd 'ar alwad' i'w deffro os bydd angen.

Disgrifiad Swydd

Datganiad ysgrifenedig, cytûn a chyfoes o brif dasgau a chyfrifoldebau aelod staff yn ei swydd yn yr ysgol, gan gynnwys diffiniad cyffredinol o'i rôl ar person y mae'n atebol iddo.

Disgybl preswyl

Disgybl a letyir dros nos yn yr ysgol neu yn rhywle arall a drefnir gan yr ysgol, ond heb gynnwys disgybl sy'n cael ei letya'n unig i ffwrdd o safle'r ysgol yn ystod trip ysgol am gyfnod byr.

Dortur

Unrhyw ystafell sy'n cael ei defnyddio fel ystafell gysgu gan ddisgyblion preswyl.

Dril Tân

Cychwyn larwm tân ar brawf ac ymarfer y cynllun i fudo plant o'r adeilad o dan sylw i fan ymgynnull diogel, gan nodi unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella cyflymder ac effeithlonrwydd unrhyw fudo o'r fath.

Dyletswyddau preswyl

Dyletswyddau ar gyfer goruchwyllo disgyblion preswyl a'u lles, ar wahân i ddyletswyddau addysgu.

Exeat

Cyfnod o amser (e.e. penwythnos) yn ystod y tymor ysgol pan fydd disgybl preswyl yn cael caniatâd i adael yr ysgol ac aros gartref neu yn rhywle arall.

Goruchwyllo Plant

Rheoli a gofalu yn effeithiol am blant. Nid yw hyn yn golygu bod aelod o'r staff yn bresennol drwy'r amser, ond mae'n golygu bod y plentyn yn gwybod pwy sy'n gyfrifol amdanynt, sut mae cysylltu â'r person hwnnw; ac mae'n golygu bod yr aelod staff yn bresennol ac yn agos yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y gallant gymryd cyfrifoldeb effeithiol dros les y plentyn.

Gwarcheidwad

Oedolyn heblaw rhiant neu aelod o staff yr ysgol sy'n cymryd cyfrifoldebau penodol dros edrych ar ôl neu gynnal disgybl preswyl. Mae tri math gwahanol o Warcheidwad: (1) Gwarcheidwad cyfreithiol, a benodir o dan Ewyllys rhiant neu gan lys ac sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn o dan Ddeddf Plant 1989; (2) Gwarcheidwad Addysgol a benodir gan yr ysgol (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac sy'n gweithredu fel asiant i'r ysgol; a (3) Gwarcheidwad Addysgol a benodir gan riant (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), nad oes ganddo gyfrifoldeb dros y plentyn ond sy'n gweithredu fel asiant ar ran y rhiant y mae'r rhiant wedi dirprwyo iddo agweddau ar ofal a chymorth plentyn (e.e. yn ystod gwyliau'r ysgol).

Gweithgareddau Risg-uchel

Gweithgareddau ar gyfer y disgyblion sy'n golygu peryglon sylweddol neu anarferol i ddiogelwch neu les disgyblion, sy'n gofyn am asesiad risg a mesurau diogelwch cadarnhaol, ond sydd ynghlwm mewn ffordd resymol â gweithgaredd gwerth chweil.

Gwrandawydd Annibynnol

Person a benodir gan yr ysgol, ond nad yw fel arall ar staff yr ysgol, fel rhywun y gall disgyblion preswyl gysylltu ag ef i gael cymorth a chynghor o'r tu allan ynghylch problemau personol neu bryderon yn yr ysgol.

Llawlyfr

Dogfen a ddarperir i holl rieni disgyblion preswyl (neu i holl rieni disgyblion yn yr ysgol) sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol ynghylch yr ysgol a'i pholisïau a'i harferion.

Lles

Bodloni anghenion corfforol, diogelwch, personol, emosiynol ac ysbrydol, rhesymol pob plentyn unigol, rhoi cymorth a chyfarwyddyd iddynt yn ôl yr angen, a galluogi datblygiad normal y plentyn ar gyfer y dyfodol a'i gyflawniad yn y presennol, gan gymryd i ystyriaeth oedran, nodweddion a dymuniadau'r plentyn. [Sylwer bod gwahaniaeth, o dan Ddeddf Plant 1989, rhwng lles, ac anghenion a chymorth addysgol neu academaidd, er y gall lles gynnwys materion addysgol mewn cyd-destunau eraill.]

Lletya (plentyn)

Rhoi i blentyn (fel arfer ond nid bob amser i un o ddisgyblion yr ysgol) lety dros nos ar safle'r ysgol, neu drefnu llety i blentyn yn rhywle arall heblaw ar safle'r ysgol (e.e. mewn tŷ llety, hostel neu yng nghartref aelod o staff yr ysgol).

Meddyginiaeth Aelwyd

Meddyginiaethau sy'n addas i blant (megis poenladdwyr priodol) y gellir eu prynu 'dros y cownter' heb bresgripsiwn.

Metron

Aelod o staff yr ysgol nad yw'n addysgu (a all fod yn nyrs hefyd neu fel arall) ac sydd â dyletswyddau preswyl sydd fel arfer yn cynnwys dyletswyddau lles, domestig, goruchwyllo a gofal iechyd o fewn tŷ preswyllo.

Myfyriwr Blwyddyn Fwlch

Person sy'n gweithio fel aelod iau o staff ysgol yn y cyfnod yn union ar ôl ymadael â'u haddysg uwchradd eu hunain (yn aml am flwyddyn cyn dechrau addysg uwch), ac yn aml o dramor.

Mynediad Sylweddol heb Oruchwyliaeth (i ddisgyblion)

Pan fydd oedolyn yn cael cysylltiad rheolaidd neu estynedig â disgyblion, neu fynediad i lety'r disgyblion sy'n rhoi cyfle ar gyfer cysylltiad o'r fath, heb fod oedolyn arall sy'n gyfrifol am les y disgyblion ac am eu goruchwyllo yn bresennol.

Nyrs

Person â chofrestriad cyfredol a chymhwyster cyfredol i weithio fel nyrs yn y DU.member of boarding staff.

Paratoi

Gwaith cartref wedi'i drefnu sy'n cael ei wneud yn yr ysgol; a hefyd yr amser rheolaidd yn ystod y diwrnod (cyfnod gyda'r nos fel arfer) pan wneir y gwaith paratoi.

Pennaeth

Person â gofal ysgol, sy'n dwyn y teitl Pennaeth, Prifathro, Prifathrawes neu deitl cyfatebol.

Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth

Grŵp a sefydlwyd i benderfynu'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn ynghylch amddiffyn plant mewn ardal benodol, fel y'u nodir yng nghanllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd.

Rhaglen Sefydlu

Hyfforddiant neu gyfarwyddyd cychwynnol sy'n cael ei roi wrth i berson ddechrau cael rhan ym mywyd preswyl i'r ysgol – cyfarwyddyd (e.e. gan ddisgybl profiadol) i ddisgybl newydd wrth iddo gyrraedd yr ysgol; hyfforddiant ar ddyletswyddau a disgwyliadau ar gyfer swyddog sydd newydd ei benodi; hyfforddiant cychwynnol ar bolisiau ac arferion preswyl ar gyfer aelod newydd o'r staff preswyl.

Sanatoriwm

Adeilad neu ran o adeilad i letya, gofalu am a thrin disgyblion sy'n sâl yn yr ysgol, neu y mae angen sylw nyrsio neu sylw meddygol arnynt.

Seremoni Dderbyn

Traddodiad neu seremoni ar gyfer disgyblion newydd wrth iddynt gyrraedd ysgol, fel arfer gan ddisgyblion sefydlog, sy'n debygol o achosi poen, pryder neu waradwydd.

Staff Asiantaeth

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, ond sy'n cael eu darparu gan asiantaeth sy'n eu cyflogi ac sy'n contractio i ddarparu staff am gyfnod penodol i'r ysgol.

Staff Atodol

Staff sy'n gweithio yn yr ysgol mewn swyddi heblaw rhai addysgu a preswyl, megis staff domestig, staff glanhau, staff arlwy, staff cynnal-a-chadw a staff sy'n gofalu am diroedd, a gyrwyr.

Staff Contract

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, ond gan contractiwr sy'n gwneud gwaith yn yr ysgol o dan contract gyda'r ysgol; e.e. staff glanhau, arlwy, adeiladu, gyrru neu gynnal-a-chadw contractiwr allanol sy'n gweithio yn yr ysgol neu ar ei rhan.

Stoc (o feddyginiaeth)

Meddyginiaeth sy'n cael ei chadw at ddefnydd cyffredinol ar gyfer unrhyw blentyn y mae arno ei angen, yn hytrach na meddyginiaeth ragnodedig sy'n cael ei chadw ar gyfer y plentyn y cafodd ei rhagnodi ar ei gyfer yn unig.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Corff cenedlaethol sy'n cynnal gwiriadau'r heddlu i ganiatáu i asesiad gael ei wneud (e.e. gan ysgol) ar addasrwydd person i weithio gyda phlant. Mae lefelau gwirio gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol o gysylltiad rheolaidd â phlant a chyfrifoldeb am eu goruchwyllo.

Swyddog

Disgybl hŷn y rhoddir iddo ddyletswyddau neu gyfrifoldebau penodedig yn yr ysgol, a all gynnwys dyletswyddau neu gyfrifoldebau at ddisgyblion eraill a phwerau weithiau i osod sancsiynau arnynt.

Tŷ preswyllo

Adeilad, neu ran o adeilad, sy'n lletya grŵp diffiniedig o ddisgyblion preswyl mewn ysgol, y gofelir amdanynt gan un neu fwy o staff dynodedig. Defnyddir ef hefyd i olygu'r grŵp o ddisgyblion preswyl a'r staff sy'n byw yn y tŷ. Ambell waith, gall tŷ gynnwys mwy nag un adeilad.

Tŷ llety

Llety sy'n cael ei drefnu gan yr ysgol ar gyfer preswylwr y tu allan i safle'r ysgol (e.e. mewn cartref teuluol, mewn fflat myfyriwr neu gyda landlord).

Teulu Bugeiliol

Teulu sy'n lletya disgybl preswyl yn eu cartref eu hunain ar ran yr ysgol.

Tystysgrif Ymddygiad Da

Dogfen sydd ar gael o rai gwledydd (sef dogfen sydd ag enw gwahanol weithiau) sy'n cadarnhau nad yw ei deiliad wedi'i gollfarnu o unrhyw drosedd yn ei famwlad; os yw ar gael mae'n ofynnol fel rhan o'r broses wirio wrth recriwtio staff megis myfyrwyr blwyddyn fwlch sy'n cael eu recriwtio o dramor.

Ymchwiliad Amddiffyn Plant

Ymchwiliad i niwed sylweddol posibl i blentyn (e.e. drwy gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, neu drwy esgeulustod), sy'n cael ei gynnal gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989. Gall gynnwys ymchwiliadau gan yr heddlu neu ymchwiliad gan yr NSPCC.

Ysgol breswyllo

Ysgol sydd yn darparu llety dros nos i ddisgyblion yn rheolaidd, naill ai yn adeiladau'r ysgol, neu drwy lety yn rhywle arall a drefnir gan yr ysgol.

Ysgol Breswyllo y Brif Ffrwd

Ysgol breswyllo annibynnol neu ysgol breswyllo a gynhelir, nad yw wedi'i dynodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgol arbennig, ac nad yw'n ofynnol ei chofrestru yn gartref plant am ei bod yn lletya un plentyn neu fwy nag un plentyn am dros 305 diwrnod y flwyddyn.

Ystafell gyffredin

Ystafell sydd ar gael i ddisgyblion preswyl i ymlacio a chymdeithasu ynddo ac ar gyfer defnydd adloniant cyffredinol, naill ai yn y tŷ preswyllo neu rywle arall yn yr ysgol.

Ystafell i gleifion

Ystafell neu ystafelloedd wedi'u dynodi'n neilltuol i letya a gofalu am ddisgyblion preswyl neu ddisgyblion eraill sy'n sâl yn yr ysgol.